# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 7 CHWEFROR 2023 am 2:00 y. p. | TUESDAY, 7 FEBRUARY, 2023 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor    Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2023.

**3** **ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHU GWYBODAETH MEWN YSGOLION 2021/22** (Tudalennau 7 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**4** **DATGANIAD O'R STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2023/24** (Tudalennau 39 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5** **ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 79 - 88)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**6** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 89 - 94)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**7** **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 95 - 106)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 107 - 108)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**9** **Y GOFRESTR RISG STRATEGOL** (Tudalennau 109 - 138)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 18 Ionawr, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Liz Wood.<br><br>Aelod Lleyg: Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid), Mr Gethin Morgan (Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Gwasanaeth Cwsmer), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifyddiaeth), Claire Klimaszewski (Rheolwr Cyllid), Nanette Williams (Prif Archwilydd), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd), Sarah Jones (Cyfrifydd dan Hyfforddiant) |

---

DRAFT

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 8 Rhagfyr 2022, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2021/22 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a oedd yn ymgorffori'r Datganiad Terfynol o'r Cyfrifon 2021/22 yn dilyn archwiliad, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 wedi'i ymestyn i 30 Tachwedd, 2021, i gyd-fynd â'r amodau gwaith mewn perthynas â phandemig Coronafeirws. Cafodd ei ymestyn ymhellach i 31 Ionawr, 2023 yn sgil dwy broblem dechnegol sylweddol a oedd yn effeithio ar bob cyngor yng Nghymru a Lloegr. Y broblem gyntaf oedd caniatáu gwerthusiadau ychwanegol ar gyfer asedau'r Cyngor nad

ydynt wedi cael eu hailbrisio hyd at 31 Mawrth, 2022, a gallent fod wedi newid yn sylweddol mewn gwerth. Roedd yr ail yn berthnasol i ymdriniaeth o ran prisio a chyfrifo asedau seilwaith megis priffyrdd, celfi stryd, goleuadau stryd a llwybrau. Croesawodd crynodeb Archwilwyr Allanol a oedd yn nodi fod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdod Lleol 2021/22; nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro, a bwriad yr Archwilwyr oedd datgan barn ddiamod ar gyfrifon 2021/22. Fodd bynnag, fe wnaeth y profion ar y cyfrifon ddod o hyd i rai newidiadau a oedd eu hangen, yn ogystal â rhai camgymeriadau, ac argymhellodd yr Archwilwyr Allanol eu bod yn cael eu cywiro i sicrhau bod y cyfrifon yn gywir yn eu hanfod. Ceir crynodeb o'r cywiriadau a wnaed yn Atodiad 3, adroddiad ISA 260 yr Archwiliwr; yn ogystal â hyn, mae rhai newidiadau bach eraill wedi'u gwneud ers cyflwyno'r datganiad ddrafft i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, 2022, gan gynnwys tynnu peth o'r nodiadau eglurhaol nad oeddynt yn ychwanegu gwerth i'r cyfrifon, yn unol ag argymhelliad blaenorol a wnaed gan yr archwilwyr ynghylch symleiddio'r cynnwys. Ymhlith y newidiadau a materion eraill i'w nodi, mae -

- O ran y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr ac yn dilyn argymhelliad yr archwilwyr, dylid lleihau darpariaeth Safle Tirlenwi Penhesgyn o £228k yn unol ag adroddiad yr ymgynghorydd, a werthusodd y safle ac a argymhellodd darpariaeth o £4.411m yn hytrach na £4.639m, ac o ganlyniad i ailbrisio asedau. Mae'r gostyngiad yn narpariaeth Safle Tirlenwi Penhesgyn hefyd yn codi refeniw cronfa'r Cyngor ar gyfer 2021/22 i £5.026m ac yn codi arian wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor I £12.278m. Nid yw hyn wedi cael ei adrodd gan yr archwilwyr yn adroddiad ISA 260, gan nad yw'n werth sylweddol.
- O ran y Fantolen, o ganlyniad i ailbrisio asedau'r Cyngor a oedd mewn perygl o gael eu tanbrisio'n sylweddol oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau a chynnydd yng ngwerth eiddo ar y farchnad na chafodd eu hailbrisio hyd at 31 Mawrth, 2022. Mae'r prisiadau newydd wedi arwain at gynnydd o £24.6m i yng ngwerth asedau'r Cyngor o ddatganiad drafft y cyfrifon terfynol.
- Mae'r newidiadau i'r ffigyrau yn y CIES a'r Fantolen a nodwyd uchod hefyd wedi effeithio ar ddatganiadau a nodiadau eraill yn y cyfrifon, gan gynnwys y Datganiad Llif Arian, ond mewn perthynas â phroses yn hytrach na'r lefel gwirioneddol o arian a gedir gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, yn ogystal â Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol, Eiddo, Peiriannau ac Offer.
- Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y Fantolen yn ystod y cyfnod rhwng 31 Mawrth, 2022 a 26 Ionawr, 2023, pan lofnodwyd Datganiad terfynol y Cyfrifon.
- Nodyn 7 – Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi wedi cael ei hail ddylunio er budd eglurder
- Nodyn 18 – Dyledwr lle mae'r fformat wedi newid er mwyn crynhoi'r canlyniadau'n well, ynghyd â'r addasiad y cyfeiriwyd ato yn Atodiad 3 yn adroddiad yr Archwilydd.
- Nodyn 20 – Credydwr wedi cael ei grynhoi mewn cytundeb â'r Archwilwyr.
- Nodyn 21 – Darpariaeth wedi cael ei addasu yn dilyn gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer Safle Tirlenwi Penhesgyn.
- Nodiadau 22-24 – Llif Arian o Weithgareddau Gweithredu, Gweithgareddau Archwilio a Gweithgareddau Cyllido wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn ffigyrau
- Nodyn 27 – Addaswyd tâl Swyddogion i adlewyrchu staff ychwanegol a ddatgelwyd yn ôl y rheoliadau



DRAFT

- Nodyn 30 – Addaswyd Incwm Grantiau i adlewyrchu newid yn nhriniaeth grant Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Nodyn 38 – Trefniadau Asiantaeth yn cynnwys tabl ychwanegol i adlewyrchu grantiau a dalwyd gan y Cyngor i fusnesau ac unigolion ar ran Llywodraeth Cymru.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y cyfle i ddiolch i Reolwr y Gwasanaeth Cyfrifyddiaeth a'i thîm am eu gwaith o baratoi a chwblhau'r cyfrifon, ac estynnodd y diolchiadau hefyd i Archwilio Cymru am eu hagwedd at y broses archwilio.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a oedd yn ymgorffori Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 i'w ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (cafodd fersiwn drafft ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau ym mis Gorffennaf, 2022) yn ceisio darparu sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith yn ystod 2021/22 ar gyfer cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith, a safonau cywir, a'i fod yn llwyr gyfrifol am arian cyhoeddus a sut y cafodd ei wario. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiad Cyfrifon terfynol ar gyfer 2021/22.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd unrhyw newidiadau materol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r fersiwn ddrafft, oni bai am newid mewn fformat i'r dudalen flaen. Mae'r Datganiad yn tynnu ar dystiolaeth o sawl ffynhonnell wahanol ac yn tynnu sylw at faterion llywodraethu yr ymdrinnir â nhw yn 2022/23.

  Ar ôl adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, 2022, fe aeth y Pwyllgor ati i wneud yr argymhellion/sylwadau pellach canlynol ar gyfer Datganiadau yn y dyfodol -

  - O ran adolygu effeithiolrwydd Datganiad Llywodraethu'r Cyngor yn flynyddol yn erbyn egwyddorion craidd y Fframwaith CIPFA, ar gyfer Darparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol, bod tystiolaeth yn cael ei darparu yn yr adran "Casgliad" i gefnogi asesiad cyffredinol y perfformiad yn erbyn pob egwyddor gan roi enghrefftiau ohono er budd a dealltwriaeth y cyhoedd sy'n ei ddarllen.
  - Os bydd y materion llywodraethu sydd wedi cael eu nodi fel rhai i weithredu arnynt yn 2022/23 yn cael eu gweithredu'r llwyddiannus, efallai nad afresymol fyddai disgwyl gweld yr asesiad o'r perfformiad cyffredinol yn erbyn pob un o'r egwyddorion, neu rai ohonynt, yn cael ei uwchraddio fel bo'n briodol.

- Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Allanol ar archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021/22 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

  Siaradodd Ms Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru am y prif ganfyddiadau o'r archwiliad ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Maent fel a ganlyn -

  - Ni all archwilwyr roi sicrwydd cyflawn fod cyfrifon yn cael eu nodi'n glir, ac maent felly'n gweithio i lefel o berthnasedd. Mae'r lefel hon o berthnasedd yn ceisio adnabod a chywiro camddatganiadau a all olygu bod unigolyn sy'n defnyddio'r cyfrifon yn ei gamddeall. Ar gyfer archwiliad 2021/22, gosodwyd y lefel o berthnasedd yn £2.845m. Gosodwyd lefel perthnasedd is ar gyfer trafodion â pharti perthnasol (ar gyfer unigolion) (£10,000) a Thâl Uwch Swyddog (£1,000).
  - Fod yr archwiliad wedi'i gwblhau ar y cyfan, yn dibynnu ar adolygiad terfynol o'r newidiadau a waned i'r cyfrifon; er nad oes problemau mawr wedi dod i'r amlwg bydd yr adroddiad ar yr archwiliad ar gyfrifon yn cael ei ddiweddaru ar gyfer

cyfarfod y Cyngor Llawn er mwyn cadarnhau cwblhau'r archwiliad a/neu i fyfyrio ar unrhyw fater arall sy'n codi.

- Bwriad cyffredinol yr Archwiliwr yw cynnig barn archwiliol ddiamod ar gyfrifon eleni, ar ôl i'r Cyngor gynnig Llythyr o Gynrychiolaeth yn seiliedig ar beth sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae barn ddiamod yn golygu nad oes pryderon materol ynghylch unrhyw agwedd ar y cyfrifon.
- Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn yr adroddiad, ac mae'n cadarnhau safbwynt yr archwiliwr annibynnol fod datganiadau ariannol yn rhoi golwg deg ar sefyllfa ariannol y Cyngor hyd at 31 Mawrth, 2022, a'u bod nhw wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol.
- Nid oes unrhyw gamddatganiadau waedi'u hadnabod yn y cyfrifon sydd heb eu cywiro.
- I ddechrau, roedd camddatganiadau yn y cyfrifon sydd bellach wedi cael eu cywiro gan reolwyr. Maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 gydag eglurhad, ac maent yn cynnwys y materion cenedlaethol sydd wedi effeithio ar amserlen archwilio eleni.
- Yn ystod y broses archwilio, mae archwilwyr yn ystyried nifer o faterion sy'n berthnasol i'r cyfrifon, ac yn adrodd ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi o hynny ymlaen; ni adroddwyd ar faterion o'r fath ar gyfer archwiliad eleni.
- Fod adroddiad Archwiliad Cyfrifon 2020/21 yn tynnu sylw at faterion mewn perthynas â symleiddio'r cyfrifon, ansawdd y cyfrifon drafft a phapurau gwaith; roedd y materion hyn hefyd wedi'u cynnwys fel risg o fewn Cynllun Archwilio Archwiliad Allanol 2021/22. Roedd yr adolygiad ar y cyfrifon drafft a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad yn nodi bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae rhai meysydd angen gwelliannau pellach a bydd yr archwilwyr yn parhau i weithio gyda'r Cyngor i ddatblygu'r rhain ymhellach ar gyfer cyfrifon 2022/23.
- Cynhelir ymarferiad dysgu ar ôl y prosiect gyda staff allweddol er mwyn trafod y gwelliannau posibl hynny.

I grynhoi, diolchodd Ms Yvonne Thomas i dîm Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth y Cyngor am eu cydymffurfiaeth a'u cymorth gyda phroses archwilio eleni.

Bu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch y Datganiad Cyfrifon terfynol a'r adroddiad Archwiliad Cyfrifon fel a ganlyn -

- Cadarnhawyd fod y cyfrifon yn dal i gael eu hadolygu, a bod unrhyw gamgymeriadau a/neu anghysondebau gramadegol a fformatio yn y fersiwn Gymraeg neu Saesneg yn cael eu cywir erbyn cyfarfod y Cyngor Llawn.
- Eglurwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer safle gwastraff Penhesgyn ar gyfer gofalu am y meysydd ar y safle a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer tirlenwi gan gynnwys cynnal a chadw peipen gylfat o dan y safle. Mae'r cylfat yn cael ei archwilio'n flynyddol gan Wasanaeth Rheoli Gwastraff y Cyngor sy'n darparu asesiad o'r costau adferol petai'r cylfat yn cael ei difrodi neu'n methu mewn unrhyw ffordd, a bod hynny'n cael ei fwydo i'r cyfrifon. Defnyddir adroddiad yr ymgynghorwr i bennu lefel y ddarpariaeth o fewn y cyfrifon.
- Cadarnhawyd fod canlyniad y broses o ailbrisio asedau wedi arwain at gynnydd o oddeutu £24.6m yng ngwerth asedau'r Cyngor yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gwerth anheddau'r cyngor.
- Cadarnhawyd fod y gostyngiad yng nghostau refeniw y Gwasanaeth Priffyrdd yn y cyfrifon terfynol yn ganlyniad o'r gostyngiad yn lefel y ddarpariaeth ar gyfer safle Gwastraff Tirlenwi Penhesgyn, gan fod unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn darpariaeth

yn cael ei dynnu o'r cyfrif refeniw. Mae'r gostyngiad mewn darpariaeth ym Mhenhesgyn yn golygu bod y swm sy'n cael ei dynnu o'r cyfrif refeniw yn llai, sydd wedi effeithio ar linell Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn y cyfrifon.

- Eglurwyd y camddatganiadau/addasiadau yn Atodiad 3 yr adroddiad Archwilio Cyfrifon, ymhellach fel rhai y gellir eu categoreiddio yn faterion ailbrisio a/neu ailddosbarthu asedau a dan/uwch ben darpariaeth, ac ar y cyfan nid yw hynny'n effeithio ar falans Cronfa Gyffredinol y Cyngor.
- Cadarnhawyd fod y potensial ar gyfer gwneud gwelliannau pellach i'r cyfrifon yn ymwneud â theilwra'r papurau gwaith i gyd-fynd ag anghenion yr archwiliwr; gan mai ond dyma'r ail flwyddyn mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith o archwilio cyfrifon y Cyngor, disgwylir y bydd y ddau barti yn deall agwedd ac ymarferion y nail a'r llall yn well, wrth i'r berthynas ddatblygu.

Daeth y Cadeirydd a'r drafodaeth i ben drwy ddiolch i'r Gwasanaeth Ariannol ac Archwilio Cymru am y gwaith a waned wrth gau'r cyfrifon a'r broses archwilio.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cadarnhau derbyn Datganiad Ariannol Cyfrifon 2021/22 fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad 1 yn adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fydd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22.**
- **Cynnwys Adroddiad ISA 260 Archwiliad Allanol yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021/22.**

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 7 Chwefror 2023 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Adroddiad Sicrwydd Llywodraethiant Gwybodaeth Blynyddol Ysgolion Ynys Môn 2023 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu aelodau o’r lefel o gydymffurfiad a risg diogelu data mewn perthynas ag ysgolion, a chrynhoi blaenoriaethau presennol |
| **Adroddiad gan:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |
| **Swyddog Cyswllt:** | Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>Est: 1833, dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Darparu dadansoddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion o’r prif faterion Llywodraethiant Gwybodaeth (IG) ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2021 i Ionawr 2023 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chrynhoi blaenoriaethau presennol.

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiaeth ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Môn â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig* (*UK GDPR*); *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Tachwedd 2021), ac yn rhoi manylion ynghylch cynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2021-2022* a beth sydd wedi ei gyflawni ganddo.

Rhoddir manylion hefyd am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023.*

**Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion**

Ers yr adroddiad diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, mae cynnydd arwyddocaol wedi’i wneud i sicrhau bod gan ysgolion y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â'r gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r mwyafrif o bolisïau’n ffurfiol ac maent yn y broses o fabwysiadu'r pecyn polisïau terfynol.

Mae angen i ysgolion nawr sicrhau eu bod yn monitro a'u bod yn gallu dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau diogelu data. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd camau angenrheidiol sy'n lleihau'r risgiau i

ddiogelu data ac yn cefnogi ysgolion i ddangos tystiolaeth o'u hatebolrwydd a'u cydymffurfiaeth.

Mae'r **arferion** rheoli gwybodaeth dydd i ddydd yn yr ysgolion wedi parhau i wella. Mae mwy o staff ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi cefnogi ysgolion i wella eu harferion. Mae mwy o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn hyfforddiant neu wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data sydd hefyd wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau'r ysgol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data.

Mae ysgolion bellach yn dangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol sy'n dod o ganlyniad. Mae ysgolion yn dangos bod ganddynt well dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau diogelu data ac maent wedi bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

| **Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Ionawr 2023)** | **Sicrwydd Rhesymol** |
|---|---|
| Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol, ac mae arferion wedi parhau i wella gyda staff a llywodraethwyr â gwell gwybodaeth am rwymedigaethau diogelu data drwy sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau. Mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod pob ysgol ar yr un lefel o gydymffurfio, ac i barhau i sicrhau bod gan ysgolion yr holl Gytundebau Diogelu Data ac Asesiadau Effaith Diogelu Data gofynnol. | |

**Argymhellion**

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor, bod:

i. adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys y datganiad, yn cael ei dderbyn.
ii. bod y Pwyllgor yn ardystio camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.

# ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN

ELIN WILLIAMS, SWYDDOG DIOGELU DATA YSGOLION

**Ionawr 2023**

**Cynnwys** **Tudalen**

1. Cyflwyniad 3
2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021 4
   2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021 4
   2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021 5
      2.2.1. Polisïau, Arweiniad, Dogfennau a Thempledi a Rannwyd ag Ysgolion 14
      2.2.2. Hyfforddiant Diogelu Data 16
         2.2.2.1. Hyfforddiant Diogelu Data a Ddarperir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion 16
3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 17
   3.1. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2021-2022 17
      3.1.1. Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY) fel Teclyn Monitro 17
      3.1.2. Mapio Proseswyr Data 17
      3.1.3. Mapio'r Llifiau Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor 18
      3.1.4. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion 18
      3.1.5. Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol 18
      3.1.6. Cefnogaeth Allanol ar gyfer y Swyddog Diogelu Data Ysgolion 19
      3.1.7. Archwiliad Diogelu Data 19
      3.1.8. Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion 20
4. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data a Chwynion Diogelu Data 20
5. Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd 21
6. Datganiad Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Ionawr 2023 21
7. Casgliadau a Chamau Nesaf 22
   ATODIAD A – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2021-2022 (F4) 24
   ATODIAD B – Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion Ynys Môn 2022-2023 (F1) 27

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn, gyda gofynion cyfreithiol mewn ymdrin â gwybodaeth ysgol, gan gynnwys cydymffurfiad â *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig* (*UK GDPR*); *Deddf Diogelu Data 2018* a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o weithredoedd a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Tachwedd 2021) ac yn darparu manylion ynglŷn â chynnwys y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2021-2022* a beth sydd wedi ei gyflawni o dan y strategaeth.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o'r hyn a gynhwysir yn y *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022-2023.*

Y rhain yw'r 45 ysgol yn Ynys Môn sydd wedi arwyddo i fyny i dderbyn cefnogaeth ac arweiniad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth:

<u>Ysgolion Cynradd</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Amlwch | Ysgol Esceifiog | Ysgol Llanfairpwll | Ysgol Penysarn |
| Ysgol Beaumaris | Ysgol Gymuned y Fali | Ysgol Llanfawr | Ysgol Rhoscolyn |
| Ysgol Gynradd Bodedern | Ysgol y Ffridd | Ysgol Llanfechell | Ysgol Rhosneigr |
| Ysgol Bodffordd | Ysgol Garreglefn | Ysgol Llangoed | Ysgol Rhosybol |
| Ysgol y Borth | Ysgol Goronwy Owen | Ysgol Llannerch-y-medd | Ysgol Rhyd y Llan |
| Ysgol Bryngwran | Ysgol y Graig | Ysgol Moelfre | Ysgol Santes Dwynwen |
| Ysgol Brynsiencyn | Ysgol Henblas | Ysgol Gymraeg Morswyn | Ysgol Santes Fair |
| Ysgol Cemaes | Ysgol Kingsland | Ysgol Parc y Bont | Ysgol Talwrn |
| Ysgol Corn Hir | Ysgol Llanbedrgoch | Ysgol Pencarnisiog | Ysgol y Tywyn |
| Ysgol Cybi | Ysgol Llandegfan | Ysgol Pentraeth | |

<u>Ysgolion Uwchradd</u>
Ysgol Uwchradd Bodedern
Ysgol Uwchradd Caergybi
Ysgol David Hughes
Ysgol Gyfun Llangefni
Ysgol Syr Thomas Jones

Ysgolion Arbennig
Canolfan Addysg y Bont

## 2. Casgliadau a Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021

2.1. Casgliadau a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021
Y canlynol oedd y casgliadau a adnabuwyd yn adroddiad Tachwedd 2021:

- Oherwydd y pandemig Covid-19, nid yw ysgolion wedi gallu symud ymlaen â'r rhaglen diogelu data fel byddai'n digwydd yn arferol. Adnabuwyd llawer o flaenoriaethau a gweithredoedd yn yr adroddiad diwethaf, ond mae wedi bod yn anodd i ysgolion roi lefel uchel o flaenoriaeth i'r gwaith hwn oherwydd gorfod delio â'r pandemig.
- Bydd amserlen y cynllun yn cael ei hadolygu, gan ystyried barn penaethiaid.
- Mae cynnydd wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol a gydag uwchraddio systemau ac isadeiledd TGCh ysgolion drwy drosglwyddo i'r gwasanaethau cwmwl HWB.
- Mae **ymarferion** rheoli gwybodaeth dydd i ddydd yn yr ysgolion dal yn dderbyniol, h.y. talu'r ffi cofrestru ICO.
- Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd ar sicrhau bod unrhyw bolisïau a dogfennau diogelu data allweddol wedi'u mabwysiadu a bod ysgolion yn monitro ac yn gallu tystiolaethu eu cydymffurfiad â'r polisïau hyn.
- Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod pob ysgol â phrosesau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gan wrthrych y data.
- Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.
- Mae angen cwblhau gwaith i sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda phroseswyr data.
- Mae mwy i'w wneud o hyd o ran adnabod a darparu hyfforddiant penodol ar gyfer staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethol, i sicrhau bod pawb yn y strwythur ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Chofrestr Asedau Gwybodaeth ar waith sy'n cael eu cadw'n gyfredol.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol a'u bod yn cael eu rhannu ac ar gael i unigolion, a bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- Mae'n rhaid cwblhau gwaith ynghylch y defnydd o ganiatâd, gan gynnwys adolygu'r ffurflenni presennol.
- Mae'n rhaid cwblhau gwaith ynghylch mynediad at wybodaeth a gwaredu â hen ddogfennau mewn ysgolion.
- Mae'n rhaid i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ymgymryd ag ymweliad archwilio i bob ysgol i fonitro cydymffurfiad â goblygiadau diogelu data.

- Mae'r broses o gychwyn cael polisïau, prosesau ac ymarferion ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi cychwyn yn yr ysgolion, ond mae dal mwy o waith i'w wneud i gael bob ysgol ar yr un lefel ac i sicrhau bod gan ysgolion yr holl ofynion sylfaenol ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

2.2. Gweithredoedd a Nodwyd o Adroddiad Tachwedd 2021

Nododd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn 2021 pa ddarnau o waith oedd angen eu gwneud gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data ac i gyflawni beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel y rheolydd data, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon.

Cynhigiwyd y gweithredoedd canlynol fel y camau nesaf oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion. Mae cynnydd hyd yn hyn parthed y gweithredoedd i'w cymryd wedi eu nodi, yn ogystal ag unrhyw waith pellach sydd angen ei wneud.

Cytunwyd y byddai'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn paratoi adroddiad diogelu data blynyddol wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu y dylai adroddiadau gynnwys:

- Y nifer o ddigwyddiadau diogelwch data yr adroddwyd
- Nifer y ceisiadau gan wrthrych y data
- Nifer y cwynion diogelu data
- Pa bolisïau sydd wedi'u diweddaru/rhannu
- Hyfforddiant sydd wedi ei gynnig yn ystod cwrs y flwyddyn, h.y., i bwy a phryd
- Argymhellion (yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd) i'w hystyried ar gyfer rhaglen datblygu'r flwyddyn nesaf.

Mae'r uchod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

**Allwedd Statws RAG**

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Ar drac i'w gwblhau'n llawn |
| (melyn) | Ychydig ar ei hôl hi o ran cynnydd, ond mae'r rhan fwyaf o dasgau'n cael eu cwblhau |
| (oren) | Ar ei hôl hi o ran cynnydd, gydag ychydig o dasgau'n cael eu cwblhau |
| (coch) | Dim cynnydd |

| Rhif | Gweithredoedd o Adroddiad Tachwedd 2021 | Cynnydd hyd yn hyn yn erbyn gweithredoedd a adnabuwyd (hyd at Ionawr 2023) | Gwaith pellach i'w wneud |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwaith pellach angen ei wneud ar sicrhau bod unrhyw bolisïau a dogfennau diogelu data wedi'u mabwysiadu a bod ysgolion yn monitro ac yn gallu tystiolaethu eu cydymffurfiad â'r polisïau hyn. | Mae cynnydd pellach wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol, gydag ysgolion wedi derbyn y pecyn polisïau newydd diwethaf. Ni fydd polisïau diogelu data newydd yn cael eu creu o'r pwynt hwn ymlaen oni bai bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad gan yr ICO.<br><br>Mae'r holl bolisïau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Uwch Dîm Rheolaeth y Gwasanaeth Dysgu, ac mae adborth a sylwadau wedi'u darparu gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion cyn rhannu ag ysgolion i fabwysiadu'n ffurfiol.<br>Mae Cwmni Celyn hefyd wedi darparu sylwadau annibynnol ar y polisïau yn ystod y cyfnod datblygiadol, gyda mewnbwn hefyd wedi'i ddarparu gan Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth TG lle bo'n berthnasol.<br><br>Mae'r holl bolisïau a dogfennau sydd wedi'u rhannu ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu, lle mae pob | Mae angen i ysgolion rŵan ganolbwyntio ar fonitro a thystiolaethu eu cydymffurfiad â holl bolisïau diogelu data unigol.<br><br>Mae'r SDDY wedi datblygu *Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data* i ysgolion ei defnyddio i wirio eu bod wedi ymgymryd â'r gweithredoedd gofynnol i gydymffurfio â phob polisi diogelu data unigol.<br><br>Bydd y SDDY yn monitro cydymffurfiad yn ystod yr ymweliad archwilio blynyddol a thrwy'r system Adolygiad Rheolaeth Ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | polisi, arweiniad a dogfen ar gael i ysgolion eu lawrlwytho a'u defnyddio.<br><br>Mae'n ofynnol i ysgolion gadarnhau ar y system Adolygiad Rheolaeth Ysgol eu bod wedi mabwysiadu'r polisïau diogelu data.<br><br>Mae pob ysgol wedi mabwysiadu'r polisi statudol- *Polisi Diogelu Data Ysgolion* sydd yn bolisi mae gofyn i'r ysgolion ei gael mewn lle. | |
| 2 | Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan bob ysgol brosesau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gan wrthrych y data. | Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r *Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data* a'r *Polisi Ceisiadau gan Wrthrych y Data*. Mae sesiynau hyfforddi cysylltiedig wedi'u cynnal gyda phenaethiaid i egluro cynnwys y polisïau a'r dogfennau.<br><br>Mae ysgolion yn ymwybodol eu bod yn gallu cysylltu â'r SDDY am gyngor ac arweiniad. Mae'r SDDY wedi bod yn cefnogi ysgolion i ymateb i geisiadau gan wrthrych y data drwy gefnogi gyda golygu gwybodaeth lle bo angen.<br><br>Mae hyfforddiant diogelu data staff ysgolion yn cynnwys arweiniad ar beth i'w wneud pan fydd digwyddiad diogelwch data yn digwydd, sydd wedi | Mae gan ysgolion y fframwaith llywodraethiant ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gan wrthrych y data, ac maent yn ymwybodol y gall y SDDY gefnogi a darparu arweiniad os yw digwyddiad diogelwch data yn digwydd ac os derbynnir cais gan wrthrych y data. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynyddu gwybodaeth staff o'r broses fel y gallent ddelio â digwyddiadau'n effeithiol. Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd ar unrhyw ddigwyddiad diogelwch data i'r SDDY i asesu a ydynt yn cyrraedd y trothwy i orfod adrodd i'r ICO ai peidio. | |
| 3 | Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel. | Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r *Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) Ysgolion*, sy'n cynnwys matrics risg. Mae sesiynau hyfforddiant cysylltiedig wedi'u cynnal â phenaethiaid i egluro cynnwys y polisi.<br><br>Mae'r broses o greu DPIAau wedi cychwyn, gyda DPIA CCTV drafft yn cael ei ddatblygu. | Mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.<br><br>Mae angen cwblhau a rhannu llyfrgell o dempledi DPIA cyffredinol ar gyfer ysgolion ar gyfer y brif broses a rhaglenni i addasu eu hanghenion unigol. |
| 4 | Mae angen cwblhau gwaith i sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda phroseswyr data. | Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud mewn sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda phroseswyr data.<br><br>Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r *Polisi Prosesu Data Ysgolion*.<br><br>Mae'r gwaith mapio o amgylch pa systemau, rhaglenni ac apiau y mae | Mae angen cwblhau a rhannu'r holl asesiadau ar y prif systemau, rhaglenni ac apiau gydag ysgolion i'w defnyddio i ddangos bod diwydrwydd dyledus wedi'i gynnal a'u bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â systemau, rhaglenni, apiau a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pob ysgol unigol yn eu defnyddio wedi ei gwblhau. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag a oes gan ysgolion gytundebau diogelu data priodol ar waith.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o asesiadau wedi'u cwblhau ar Gytundebau Prosesu Data cyfredol i sicrhau eu bod yn cyrraedd disgwyliadau'r ysgolion fel rheolyddion data.<br><br>Mae DPAau wedi eu cytuno a'u llofnodi ar gyfer rhai rhaglenni penodol. | phroseswyr data a ddefnyddir.<br><br>Mae'n rhaid cwblhau gwaith ar greu DPAau ar gyfer prosesu penodol (lle nad oes cytundebau'n bodoli eisoes) a bydd pecyn o gytundebau'n cael ei rannu ag ysgolion i'w lofnodi. |
| 5 | Mae mwy i'w wneud o hyd ynghylch adnabod a darparu hyfforddiant penodol ar gyfer staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethol, i sicrhau bod pawb o fewn y strwythur ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data. | Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi diweddaru'r *Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data Ysgolion.*<br><br>Mae nifer arwyddocaol o sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal gyda phenaethiaid, staff ysgolion a chyrff llywodraethol ynghylch materion diogelu data mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau swydd. Mae'r rhan fwyaf o staff ysgolion bellach wedi derbyn hyfforddiant diogelu data sylfaenol.<br><br>Nid oedd yn bosib gweithredu'r cynllun blaenorol yn llawn oherwydd ysgolion yn gorfod delio â | Sicrhau bod pob aelod o staff ym mhob ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data sylfaenol, a pharhau i ddarparu hyfforddiant diogelu data blynyddol i bawb.<br><br>Sicrhau bod pob corff llywodraethol wedi derbyn y cyflwyniad ymwybyddiaeth diogelu data.<br><br>Parhau i annog ysgolion i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant ar-lein. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | blaenoriaethau Covid-19, ond mae cynnydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod diwethaf gyda darparu hyfforddiant i staff ysgolion. Mae wedi'i ddarparu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb.<br><br>Mae'r SDDY wedi annog ysgolion i sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein.<br><br>Mae'r *Arweiniad Diogelu Data Corff Llywodraethol Ysgolion* wedi'i rannu ag ysgolion, sy'n darparu arweiniad ar gyfer llywodraethwyr ysgol. | Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n barhaus i sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau diogelu data. |
| 6 | Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Chofrestr Asedau Gwybodaeth ar waith sy'n cael eu cadw'n gyfredol. | Mae'r gwaith mapio o amgylch pa systemau, rhaglenni ac apiau y mae pob ysgol unigol yn eu defnyddio wedi'i gwblhau.<br><br>Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r mapio wedi'i defnyddio i greu ROPA wedi ei boblogi o flaen llaw a thempled Cofrestr Asedau Gwybodaeth i ysgolion ei addasu ar gyfer anghenion unigol. | Gorffen datblygu ROPA sydd wedi'i boblogi o flaen llaw, a thempled Cofrestr Asedau Gwybodaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd, a'u rhannu ag ysgolion.<br><br>Cynnal cyfarfodydd ag ysgolion unigol i ddiwygio'r templed i greu ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth unigryw ar gyfer eu hysgol. |
| 7 | Mae angen sicrhau bod gan bob ysgol Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol a'u bod yn cael eu rhannu ac ar gael i unigolion, a bod | Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi cwblhau darn o waith yn cynnwys creu templedi | Y SDDY i barhau i annog pob ysgol i sicrhau bod ganddynt y fersiynau diweddaraf o'r Hysbysiadau Preifatrwydd ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd. | Hysbysiadau Preifatrwydd i ysgolion eu haddasu a'u mabwysiadu.<br><br>Mae'r templedi Hysbysiad Preifatrwydd canlynol wedi'u mabwysiadu gan y rhan fwyaf o ysgolion:<br><br>• Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol i Ysgolion Cynradd<br>• Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol i Ysgolion Uwchradd<br>• Fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol<br>• Hysbysiad Preifatrwydd Gweithlu Ysgol.<br><br>Mae ysgolion wedi bod yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Hysbysiadau Preifatrwydd yn ffurfiol drwy'r system Adolygiad Rheolaeth Ysgol.<br><br>Mae'r SDDY wedi sicrhau bod y ffurflenni caniatâd diwygiedig yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd. | waith, gan gynnwys darparu dolen gyswllt iddynt ar eu gwefannau (os yn berthnasol).<br><br>Bydd y SDDY yn monitro cydymffurfiaeth yn ystod yr ymweliad archwilio blynyddol a thrwy'r system Adolygiad Rheolaeth Ysgol.<br><br>Y SDDY i barhau i sicrhau bod unrhyw ffurflenni casglu data diwygiedig yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd. |
| 8 | Mae angen cwblhau gwaith ynghylch defnydd o ganiatâd, gan gynnwys adolygu'r ffurflenni presennol. | Mae'r ffurflen ganiatâd gyfredol (ar gyfer tynnu a chyhoeddi ffotograffau, delweddau a ffilm) wedi ei hadolygu ac mae taflen gysylltiedig yn egluro | Gan mai dim ond yn ddiweddar mae ysgolion wedi derbyn y ffurflen ganiatâd wedi'i diweddaru a'r daflen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | caniatâd *UK GDPR* wedi ei datblygu (*Tynnu a Defnyddio Lluniau o'ch Plentyn yn yr Ysgol: Taflen Eich Hawliau*).<br><br>Mae'r *Polisi Tynnu Lluniau at Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion* a'r *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* hefyd wedi'u datblygu a'u rhannu ag ysgolion i'w datblygu, sy'n darparu arweiniad ar ganiatâd a chyhoeddi data personol. | a'r polisïau cysylltiedig, mae'n rhaid i'r SDDY fonitro gweithrediad y dogfennau hyn. |
| 9 | Mae'n rhaid cwblhau gwaith ynghylch mynediad at wybodaeth a gwaredu â hen ddogfennau mewn ysgolion. | Mae'r *Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion* wedi'i hadolygu ac mae fersiwn wedi'i ddiweddaru wedi'i rannu i ysgolion ei ddilyn.<br><br>Mae ysgolion hefyd wedi mabwysiadu'r *Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn* sy'n darparu arweiniad ar ba bryd i drosglwyddo dogfennau i Archifdy Ynys Môn. Mae'r Gwasanaeth Archifau wedi bod yn darparu arweiniad i rai ysgolion wrth adolygu dogfennau hanesyddol.<br><br>Mae mynediad at ymarferion gwybodaeth wedi gwella (mae hon yn elfen a archwilir yn ystod yr ymweliad archwilio SDDY). Mae bellach rheolaethau mynediad mwy tynn | Mae'n rhaid i rai ysgolion adolygu'r dogfennau hanesyddol y maent yn eu cadw a sicrhau eu bod yn dilyn yr arweiniad yn y *Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion*. Bydd y SDDY yn cefnogi rhai ysgolion gyda'r dasg hon.<br><br>Mae gwaith pellach angen ei wneud i sicrhau bod gan bob ysgol reolaethau mynediad cadarn i wybodaeth electronig a ffisegol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn ysgolion yn gyffredinol, gyda mynediad ond yn cael ei roi i'r rhai sydd ei **angen**. | |
| 10 | Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ymgymryd ag ymweliad archwilio i bob ysgol i fonitro cydymffurfiad â goblygiadau diogelu data. | Mae'r SDDY wedi ymgymryd ag ymweliad archwilio i bob un o'r 45 ysol rhwng Mawrth a Thachwedd 2022.<br><br>Mae pob ysgol wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr ymweliad yn manylu ar y cynnydd mewn gwahanol feysydd ac mae sgôr risg cyffredinol wedi'i ddarparu. | Bydd archwiliad diogelu data'n cael ei gynnal gyda phob ysgol yn flynyddol i fonitro cynnydd ac i ddarparu trosolwg annibynnol i ysgolion ar feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. |

2.2.1. Polisïau, Arweiniad, Dogfennau a Thempledi a Rannwyd ag Ysgolion

Un o brif ffocysau'r Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion yw sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau a dogfennau allweddol ar waith i gefnogi ysgolion i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

Mae'n hanfodol bod polisïau a dogfennau craidd yn cael eu mabwysiadu gan yr ysgolion i arddangos atebolrwydd.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu a rhannu'r polisïau, arweiniad, dogfennau a thempledi canlynol i ysgolion eu mabwysiadu a'u defnyddio yn ystod y cyfnod hwn:

| **Polisi, Arweiniad, Dogfennau Allweddol** | **Wedi'u Rhannu â'r Ysgol gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion** |
|---|---|
| **Pecyn Asesiadau Effaith Diogelu Data**<br>• Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion<br>• Templed Cofrestr Risg<br>• Matrics Risg | Ebrill 2022 |
| **Pecyn Systemau CCTV Ysgolion:**<br>• Polisi CCTV Ysgolion<br>• Log Systemau CCTV | Ebrill 2022 |
| Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion | Ebrill 2022 |
| Polisi Diogelu Data Ysgolion (polisi statudol) – fersiwn 2 | Ebrill 2022 |
| Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion | Rhagfyr 2023 |
| Polisi E-bost Staff Ysgolion | Rhagfyr 2023 |
| Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion | Rhagfyr 2023 |
| **Pecyn Ffurflenni Caniatâd:**<br>• Ffurflen Ganiatâd Diogelu Data Ysgolion (wedi'i diweddaru)<br>• Tynnu a Defnyddio Lluniau neu Fideos o'ch Plentyn yn yr Ysgol: Taflen Eich Hawliau | Rhagfyr 2023 |
| Polisi Tynnu Lluniau at Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion | Rhagfyr 2023 |
| Dogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion (wedi'i diweddaru) | Rhagfyr 2023 |

| | |
|---|---|
| Geirfa, Diffiniadau a Deddfwriaeth Diogelu Data Ysgolion Dwyieithog (wedi'i ddiweddaru) | Rhagfyr 2023 |
| Rhestr Wirio Diogelu Data | Rhagfyr 2023 |

Mae pob fersiwn cyfredol o bolisïau, arweiniad, dogfennau, a thempledi ar gael i'w lawrlwytho o'r dudalen Diogelu Data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Mae sesiynau hyfforddiant gyda phenaethiaid a staff perthnasol o'r ysgolion wedi'u cynnal ar sail ddalgylch gydag ysgolion cynradd, ac fel grŵp ysgol uwchradd ar gyfer yr ysgolion uwchradd gyda rhyddhad bob pecyn polisïau. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddiant ochr yn ochr â rhannu'r polisïau a'r dogfennau fel bod ysgolion yn deall cynnwys y polisïau a'r dogfennau. Mae hyn yn eu gwneud yn haws i ysgolion allu eu monitro a gallu tystiolaethu eu cydymffurfiad â'r polisïau gan fod ganddynt well dealltwriaeth o'r cynnwys.

Mae ysgolion bellach wedi derbyn pob polisi sy'n ofynnol. Mae sesiynau hyfforddiant yn y broses o gael eu cynnal drwy'r dalgylch i fynd drwy'r pecyn terfynol hwn o bolisïau a dogfennau allweddol.

Bydd polisïau'n cael eu hadolygu bob dwy neu tair blynedd, oni bai am y Polisi Diogelu Data Ysgolion, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn am ei fod yn bolisi statudol. Mae pob ysgol wedi mabwysiadu'r polisi yma.

<table>
<tr><th colspan="2">Yr Holl Bolisïau Diogelu Data a Rannwyd ag Ysgolion</th></tr>
<tr><td>• Polisi Diogelu Data Ysgolion<br>• Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion<br>• Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion</td><td>• Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gyda Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn)<br>• Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion</td></tr>
<tr><td>• Polisi Prosesu Data Ysgolion<br>• Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn</td><td>• Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion<br>• Polisi CCTV Ysgolion<br>• Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion<br>• Polisi E-bost Staff Ysgolion<br>• Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion<br>• Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion</td></tr>
</table>

Mae dogfen Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data wedi'i datblygu i gefnogi ysgolion i gadarnhau eu bod wedi gweithredu ar y prif ofynion yn y polisïau diogelu data, sy'n

cefnogi ysgolion i arddangos atebolrwydd a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Mae arwydd CCTV dwyieithog sy'n hysbysu gwrthrychau data o'r sail gyfreithlon dros ffilmio a manylion cyswllt y sawl sy'n gyfrifol am CCTV yn yr ysgolion wedi'i ddatblygu yn dilyn rhyddhad y polisi. Mae ysgolion wedi cael cyfle i brynu arwyddion drwy'r Gwasanaeth Dysgu.

2.2.2. Hyfforddiant Diogelu Data

2.2.2.1. Hyfforddiant Diogelu Data a Ddarperir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r hyfforddiant canlynol wedi'i ddarparu i ysgolion gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion rhwng Tachwedd 2021 a Ionawr 2023:

| **Natur yr Hyfforddiant** | **Nifer y Sesiynau a Gynhaliwyd** |
|---|---|
| Hyfforddiant diogelu data ar gyfer penaethiaid (gan gynnwys anwytho/ail-gyfarwyddo a chyflwyniad i bolisïau diogelu data newydd) | **14** (09.11.21, 26.11.21, 29.11.21, 01.12.21, 10.12.21, 12.01.22, 05.04.22, 04.05.22, 13.05.22, 18.05.22, 25.05.22, 17.06.22 & 18.01.23 x2) |
| Diogelu Data ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol | **3** (25.11.21, 26.04.22 & 20.10.22) |
| Hyfforddiant CCTV (wedi'i ddarparu gan Cwmni Celyn) | **2** (17.05.22 & 10.06.22) |
| Hyfforddiant ar gyfer Staff Gweinyddol Ysgolion | **3** (18.02.22, 12.05.22 & 27.06.22) |
| Hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff ysgolion drwy'r dalgylch | **6** (26.11.21, 03.12.21, 11.01.22, 28.02.22, 06.06.22 & 07.11.22) |
| Hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff ysgolion drwy'r ysgolion unigol | **7** (06.06.22, 13.06.22, 21.06.22, 27.06.22, 05.09.22, 07.11.22 & 15.11.22) |
| **Cyfanswm** | **35** |

Mae nifer arwyddocaol yn fwy o sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn, gyda mwy o sesiynau hyfforddiant wedi'u cynnal â staff ysgolion, ac mae mwy o gyfathrebu wedi bod gyda chyrff llywodraethol ysgolion, gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cyflwyno diogelu data mewn cyfarfodydd.

Mae cyflwyniad diogelu data wedi'i ddarparu i **20** o gyrff llywodraethol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cyflwyniad yn amlygu'r prif ofynion a disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â rhwymedigaethau diogelu data.

Mae nifer o sesiynau hyfforddiant wedi parhau i gael eu cynnal gyda phenaethiaid, gyda nifer o sesiynau'n cael eu cynnal ar sail ddalgylch wrth i bob pecyn polisïau gael ei ryddhau.

Nodwyd darparu mwy o hyfforddiant i staff ysgolion a llywodraethwyr fel gweithred yn adroddiad Tachwedd 2021. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau bod pawb o fewn y strwythur ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data, ac mae hyn wedi cyfrannu at welliant cyffredinol ymarferion diogelu data mewn ysgolion.

Bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu trefnu ar gyfer ysgolion sydd eto i drefnu hyfforddiant ar gyfer staff a chorff llywodraethol eu hysgol, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff ar draws bob ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data sylfaenol. Mae *Cynllun Hyfforddiant Diogelu Data Ysgolion* wedi'i ddatblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-23.

## 3. Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion

3.1. <u>Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2021-2022</u>
Datblygwyd Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021-22. Datblygwyd y strategaeth yn seiliedig ar y cynllun ar gyfer y flwyddyn flaenorol (gweler copi o'r cynllun yn ATODIAD A).

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys y darnau canlynol o waith a gweithredoedd, y mae rhai ohonynt wedi cychwyn eisoes, a rhai wedi'u cwblhau. Mae oedi wedi bod gyda rhai elfennau, gyda dyddiadau cwblhau'n cael eu symud oherwydd yr amser a'r adnoddau ar gael.

3.1.1. <u>Defnyddio'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY) fel Teclyn Monitro</u>
Mae ysgolion unigol wedi ateb y cwestiynau sy'n gysylltiedig â diogelu data ar y system Adolygiad Rheolaeth Ysgol i sefydlu gwaelodlin o ble roedden nhw'n ystyried eu hunain yn erbyn y gwahanol elfennau o gydymffurfiaeth diogelu data.

Mae ysgolion unigol hefyd yn cadarnhau ar yr ARhY eu bod wedi mabwysiadu polisïau diogelu data unigol yn ffurfiol. Mae ysgolion wedi bod yn gwneud hyn wrth i'r polisïau newydd gael eu rhannu.

Mae 'donut' pwrpasol wedi ei ddatblygu bellach ar y system i'w gwneud yn haws i ysgolion gadarnhau pa bolisïau diogelu data sydd wedi'u mabwysiadu. Mae wedi dechrau cael ei ddefnyddio o fis Tachwedd 2022 ymlaen.

Defnyddir yr ARhY gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i fesur ac adolygu cynnydd mewn perthynas â mabwysiadu polisïau a gyda chydymffurfiad diogelu data cyffredinol.

3.1.2. <u>Mapio Proseswyr Data</u>

Mae darn o waith wedi'i gwblhau yn mapio proseswyr data y mae ysgolion yn eu defnyddio. Mae pob ysgol unigol wedi cyfarfod â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion neu Caryl Lewis o Cwmni Celyn i gadarnhau pa systemau, rhaglenni ac apiau y maent yn eu defnyddio yn yr ysgol.

Mae'r wybodaeth hon yna wedi arwain at sicrhau bod gan ysgolion Gytundebau Prosesu Data priodol neu gytundebau diogelu data priodol eraill ar waith gyda chyflenwyr (proseswyr data).

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gyda chefnogaeth Cwmni Celyn, wedi cwblhau asesiadau dwys ar Gytundebau Prosesu Data ar gyfer systemau, rhaglenni ac apiau y mae'r mwyafrif o ysgolion yn eu defnyddio. Ymgymerwyd â hyn i ddarparu asesiad risg cyffredinol i ysgolion parthed y cytundebau y mae ganddynt ar waith ar hyn o bryd.

Mae llyfrgell o asesiadau wedi'i chreu a bydd yn cael ei rhannu'n fuan ag ysgolion drwy'r dudalen diogelu data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

3.1.3. <u>Mapio'r Llifiau Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor</u>

Mae gwaith wedi parhau gyda mapio'r llifiau data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor i adnabod lle mae angen cytundeb. Mae grŵp wedi'i sefydlu i edrych ar gontractau a phrosesau sydd ar waith, ac mae angen ymgymryd â gwaith pellach er mwyn cwblhau'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cael ei gadw o dan adolygiad fel a phan fydd gwasanaethau a systemau newydd yn cael eu defnyddio.

3.1.4. <u>Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion</u>

Datblygwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Cyngor a'r ysgolion ar gyfer y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, a rhannwyd hwn ag ysgolion i'w lofnodi ym mis Tachwedd 2021 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad. Bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei adolygu ym mis Mawrth 2024.

3.1.5. <u>Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol</u>

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu diweddariadau rheolaidd i fforymau ysgolion cynradd ac uwchradd ar faterion diogelu data a chynnydd yn erbyn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data.

Mae hyn hefyd yn cynnwys rhannu newyddlen dymhorol. Hyd yn hyn, mae ysgolion wedi derbyn 4 newyddlen.

Mae adran diogelu data ysgolion hefyd yn y bwletin llywodraethwyr ysgol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn cael ei gwahodd yn rheolaidd i fynychu'r Fforwm Strategol Cynradd ac Uwchradd i drafod materion diogelu data sy'n peri pryder, ac mae hefyd yn aelod o Fforwm Pencampwyr Digidol Môn a'r Gweithgor Gwella Prosesau a Systemau.

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu data drwy fwletin wythnosol y Gwasanaeth Dysgu.

3.1.6. Cefnogaeth Allanol ar gyfer y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae cefnogaeth allanol wedi parhau i gael ei darparu gan Cwmni Celyn mewn perthynas â rhai o'r gweithredoedd a'r darnau o waith yn y strategaeth.

Mae Cwmni Celyn wedi darparu cefnogaeth gyda mapio proseswyr data; mapio'r llifiau data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor ac asesu Cytundebau Prosesu Data. Mae Cwmni Celyn hefyd wedi cynnal dwy sesiwn hyfforddiant yn ymwneud â gofynion CCTV ac wedi darparu sylwadau ac adborth ar bolisïau a dogfennau diogelu data newydd sydd wedi eu datblygu, gan gynnwys adolygu'r *Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion.*

Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau a bydd cyswllt yn cael ei wneud â Cwmni Celyn i ddarparu cefnogaeth gyda darnau penodol o waith fel a phan fo angen.

3.1.7. Archwiliad Diogelu Data

Yn y cyfnod rhwng Mawrth 2022 a Thachwedd 2022, ymwelodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion â phob un o'r 45 ysgol unigol i adolygu cydymffurfiaeth a threfniadau diogelu data.

Roedd yr ymweliadau hyn yn ddilyniant i'r ymweliadau cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2019 a Chwefror 2020.

Mae bob ysgol wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr ymweliad, yn manylu ar gynnydd o fewn gwahanol feysydd, ac mae sgôr risg cyffredinol wedi'i ddarparu.

Roedd yn amlwg bod cynnydd wedi'i wneud ers yr ymweliad cyntaf. Mae canlyniadau yr ail archwiliad yn dangos bod y mwyafrif o ysgolion erbyn hyn wedi mabwysiadu polisïau allweddol; gyda'r Hysbysiadau Preifatrwydd gofynnol mewn lle; wedi gwella diogelwch o gwmpas storio a chael mynediad at wybodaeth personol yn gorfforol ac yn electronig; wedi darparu staff gyda gwybodaeth gwell o'u rhwymedigaethau diogelu data drwy hyfforddiant ac wedi cychwyn sicrhau bod ganddynt gytundebau addas mewn lle gyda proseswyr data. Mae hyn i gyd yn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio'n well â diogelu data a gallant arddangos eu hatebolrwydd yn well, sy'n welliant cadarnhaol.

Bydd archwiliad diogelu data'n cael ei gynnal gyda phob ysgol unigol yn flynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn gofynion allweddol ac i ddarparu trosolwg annibynnol i ysgolion ar feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae ysgolion wrthi'n bwcio ymweliadau 2023, a fydd yn cael eu cynnal rhwng Mawrth a Mehefin 2023.

3.1.8. <u>Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion</u>
Mae Grŵp Gweithredol Diogelu Data wedi'i sefydlu, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Ebrill 2022.

Mae'r grŵp yn fforwm lle gall ysgolion ddarparu mewnbwn ac adborth ar faterion a datblygiadau diogelu data. Mae pob polisi, templed a gweithdrefn yn cael eu rhannu gyda'r grŵp am sylwadau ac adborth cyn y cânt eu cadarnhau fel fersiynau terfynol i'w rhannu a'u mabwysiadu gan ysgolion.

Mae cynrychiolydd o bob dalgylch yn ffurfio aelodaeth o'r grŵp, gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hefyd cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cadeirio cyfarfodydd, a Rheolwr Contractau a Gwasanaethau'r Gwasanaeth Dysgu a chynrychiolydd o Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth TG yn aelodau.

Mae'r grŵp yn gweithio ar ddarnau penodol o waith a fydd yn cefnogi datblygiadau pellach. Mae'r grŵp hwn yn fforwm pwysig fel bod ysgolion yn rhan o ddatblygiadau a'u bod yn gallu darparu adborth a mewnbwn.

## 4. Nifer y Digwyddiadau Diogelwch Data, Ceisiadau gan Wrthrych y Data a Chwynion Diogelu Data

Y canlynol yw'r nifer o ddigwyddiadau diogelwch data, ceisiadau gan wrthrych y data a chwynion diogelu data gan ysgolion y mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion ar eu cyfer:

| | **Tachwedd 2021 – Ionawr 2023** | **Gorffennaf 2020 – Hydref 2021** |
|---|---|---|
| **Nifer y digwyddiadau diogelwch data yr adroddwyd** | **9** (gyda 0 yn adroddadwy i'r ICO) | **12** (gyda **2** yn adroddadwy I'r ICO) |
| **Nifer y ceisiadau gan wrthrych y data** | **9** | **10** |
| **Nifer y cwynion diogelu data** | **2** | **1** |

Mae llai o ddigwyddiadau diogelwch data adroddadwy yn y cyfnod yma nag yn y cyfnod adrodd blaenorol. Gall hyn fod oherwydd bod ysgolion wedi gwella eu ymarferion diogelu data gan eu bod gyda gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau oherwydd yr archwiliadau; y polisïau maent wedi eu mhabwysiadu; y sesiynau hyfforddiant sydd wedi eu cynnal ac yn y gwelliant yn eu hymarferion diogelwch o gwmpas data personol yn gorfforol ac yn electronig.

Mae'r nifer o gefnogaeth wedi ei ddarparu i ysgolion gyda ceisiadau gan wrthrych y data a gyda cwynion diogelu data yn debyg o ran niferoedd ar gyfer y ddau gyfnod adrodd. Mae ysgolion yn parhau i ofyn am gymorth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion gyda delio gyda ceisiadau a cwynion.

## 5. Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd

Darganfuwyd ar y 23ain o Fehefin 2021 bod achos posib o seiber-ddigwyddiad wedi bod, yn effeithio ar bob un o'r pum ysgol uwchradd sydd ar Ynys Môn - Ysgol Syr Thomas Jones; Ysgol Uwchradd Bodedern; Ysgol Gyfun Llangefni; Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi.

Comisiynwyd tîm o ymgynghorwyr technoleg seiber arbenigol ar unwaith gan y Cyngor i ymchwilio i'r digwyddiad. Roedd y National Cyber Security Centre (NCSC) hefyd yn rhoi cefnogaeth i ddatrys materion. Ni ddaeth dadansoddiad fforensig o'r digwyddiad seiber o hyd i unrhyw dystiolaeth bod systemau TGCh wedi'u hymdreiddio na'u cyfaddawdu.

Adroddwyd ar y digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac mae ymchwiliad wedi dechrau ond nid yw canfyddiadau'r ymchwiliad wedi dod i law eto.

Ysgogodd y digwyddiad i'r Cyngor ddod â gwaith arfaethedig yn ei flaen, fel rhan o raglen HWB Llywodraeth Cymru, i uwchraddio systemau technoleg gwybodaeth yr ysgolion uwchradd, arbennig, a chynradd. Mae'r gwaith i uwchraddio'r systemau a'r isadeiledd TGCh bellach wedi'i gwblhau gyda rhagor o waith yn cael ei gwblhau i wella diogelwch. Mae gwaith yn cael ei wneud i alluogi Dilysu Aml-ffactor (MFA) ar gyfrifon HWB staff i wella diogelwch wrth gyrchu HWB o gartref, ac mae gwaith yn y broses o gael ei wneud ar ddarparu gliniaduron In Tune ar gyfer ysgolion, unwaith eto i wella diogelwch mynediad.

## 6. Datganiad Swyddog Diogelu Data Ysgolion - Ionawr 2023

Ers yr adroddiad diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud i sicrhau bod gan ysgolion y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â'r gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ysgolion wedi mabwysiadu'r mwyafrif o bolisïau'n ffurfiol ac maent yn y broses o fabwysiadu'r pecyn polisïau terfynol. Mae pob ysgol wedi mabwysiadu'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion* sydd yn bolisi statudol rhaid i bob ysgol ei gael mewn lle.

Mae angen i ysgolion nawr sicrhau eu bod yn monitro a'u bod yn gallu dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau diogelu data. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd camau angenrheidiol sy'n lleihau'r risgiau i ddiogelu data ac yn cefnogi ysgolion i ddangos tystiolaeth o'u hatebolrwydd a'u cydymffurfiaeth.

Mae'r arferion rheoli gwybodaeth dydd i ddydd yn yr ysgolion wedi parhau i wella. Mae mwy o staff ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi cefnogi ysgolion i wella eu harferion. Mae mwy o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn hyfforddiant neu wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data sydd hefyd wedi gwella eu dealltwriaeth o rwymedigaethau'r ysgol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data.

Mae ysgolion bellach yn dangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y rheolydd data a'r disgwyliadau cyfreithiol sy'n dod o ganlyniad. Mae ysgolion yn dangos bod ganddynt well dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau diogelu data ac maent wedi bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd mewn lle wedi ffurfioli y berthynas rhwng y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac yr ysgolion. Gwelir hyn drwy ysgolion yn gofyn mwy o gwestiynau ynglŷn a materion diogelu data ac yn y cynnydd yn y cyswllt rhwng ysgolion ac y Swyddog Diogelu Data Ysgolion am gyngor ac arweiniad penodol.

<table>
<tr><th>Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Ionawr 2023)</th><th>Sicrwydd Rhesymol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol, ac mae arferion wedi parhau i wella gyda staff a llywodraethwyr â gwell gwybodaeth am rwymedigaethau diogelu data drwy sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau. Mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod pob ysgol ar yr un lefel o gydymffurfio, ac i barhau i sicrhau bod gan ysgolion yr holl Gytundebau Diogelu Data ac Asesiadau Effaith Diogelu Data gofynnol.</td></tr>
</table>

## 7. Casgliadau a Chamau Nesaf

- Er gwaetha'r pandemig Covid-19, mae ysgolion wedi gallu prosesu'r rhaglen diogelu data dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae rheolaeth gwybodaeth dydd i ddydd **arferion** rheoli gwybodaeth yn yr ysgolion wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae cynnydd pellach wedi'i wneud o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol, gyda'r ffocws yn awr angen bod ar ysgolion yn monitro ac yn tystiolaethu eu cydymffurfiad â pholisïau diogelu data unigol wrth symud ymlaen.
- Penaethiaid a staff ysgolion wedi cael mewnbwn i ddatblygiadau drwy gyfarfod y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys amserlenni gweithredoedd yn y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion, a datblygiad polisïau, arweiniad a thempledi newydd.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran uwchraddio systemau ac isadeiledd TGCh yr ysgolion, drwy drosglwyddo i wasanaethau cwmwl HWB, a'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae mwy o waith yn y broses o gael ei gwblhau i wella diogelwch systemau, gyda MFA yn cael ei alluogi ar gyfrifon HWB staff a gliniaduron In Tune yn cael eu dosbarthu i ysgolion. Mae hyn wedi arwain at wneud systemau ysgol yn fwy diogel.
- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud mewn sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda phroseswyr data. Mae gwaith mapio o amgylch pa systemau, rhaglenni ac apiau y mae ysgolion yn eu defnyddio

wedi'i gwblhau ac mae asesiadau wedi'u cwblhau ar Gytundebau Prosesu Data gyda llyfrgell o'r asesiadau'n cael eu rhannu'n fuan. Mae gwaith i'w wneud ar greu DPIAau ar gyfer prosesu penodol, a bydd pecyn o gytundebau'n cael ei rannu ag ysgolion i'w lofnodi.

- Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o amgylch adnabod a darparu hyfforddiant penodol ar gyfer staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethol, gyda nifer o sesiynau hyfforddiant yn cael eu darparu i staff ar bob lefel. Mae hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod pawb yn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data. Mae angen cynnal sesiynau diogelu data pellach i sicrhau bod staff a llywodraethwyr o bob ysgol wedi derbyn hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar gynnwys y *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a *Pholisi E-bost Staff Ysgolion.*
- Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae gwaith pellach i'w wneud ar sicrhau bod risgiau diogelu data'n cael eu rheoli'n effeithiol, a bod Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bellach Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhannu'r rhain â rhieni ac wedi rhoi'r fersiwn cyffredinol a'r fersiwn plant a phobl ifanc ar wefan yr ysgol.
- Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi ymgymryd ag ymweliad archwilio i bob ysgol i fonitro cydymffurfiad â rhwymedigaethau diogelu data, ac wedi darparu adroddiad o ganfyddiadau i bob ysgol, sy'n cynnwys sgôr risg a gweithredoedd i'w cymryd.
- Mae'r ffurflen ganiatâd gyfredol wedi'i hadolygu, ac mae taflen gysylltiedig yn egluro UK GDPR wedi'i datblygu.
- Er bod cynnydd wedi'i wneud gyda datblygu templed sydd wedi'i boblogi o flaen llaw i ysgolion ei addasu ar gyfer eu hanghenion unigol, mae angen rhannu'r templed fel bod gan bob ysgol ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth cyfredol.
- Mae angen i rai ysgolion waredu â dogfennau hanesyddol i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw heibio ei chyfnod cadw. Mae'r *Ddogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion* wedi'i rhannu gydag ysgolion i'w defnyddio.
- Mae angen datblygu *Cynllun Parhad Busnes* a *Chynllun Adfer Trychineb* a'u mabwysiadu gan ysgolion i sicrhau y gellir cael mynediad at ddata personol o hyd yn ystod digwyddiad neu drychineb.
- Mae *Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion* wedi'i datblygu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-2023 i sicrhau bod gweithredoedd sydd angen eu cwblhau o hyd o'r strategaeth flaenorol yn cael eu cwblhau, ac i gynnwys camau gweithredu newydd sydd angen eu cymryd (gweler ATODIAD B).
- Mae angen rhoi mwy o swyddogaethau adrodd a monitro mewn lle er mwyn monitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data drwy ddarparu mwy o gyfleon i Benaethiaid a staff ysgolion i roi adborth ar sesiynau hyfforddiant ac ar ansawdd a defnyddioldeb o'r gwasanaeth, ac ar y cyngor ac arweiniad sydd yn cael ei ddarparu o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

## ATODIAD A

## STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION YNYS MÔN 2021-2022
## Fersiwn Pedwar

Mae'r strategaeth wedi ei hadolygu gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion er mwyn cadarnhau bod yr amserlen newydd yn gweithio i'r ysgolion (gweithredoedd sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ysgolion).

| Rhif | Polisi, Canllawiau, Dogfennau Allweddol / Gweithgaredd | Dyddiad Cyflwyno i'r Ysgolion i Fabwysiadu / Cychwyn y Gwaith | Hyfforddiant / Codi Ymwybyddiaeth / Cymorth ar Gael | Dyddiad Targed i Gwblhau * |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Mapio Llif Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor**<br>Mapio'r llif data, *'data flows',* rhwng yr ysgolion a'r Cyngor er mwyn adnabod ble mae angen cytundeb a chreu DPA addas. | Medi 2021 | Mapio llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor a chreu cytundebau addas ar gyfer unrhyw drefniant sydd ar waith. | Gwaith mapio wedi ei gwblhau erbyn **24.06.22** |
| 2 | **Adolygu Trefniadau gyda Proseswyr Data**<br>Adolygu trefniadau rhwng ysgolion unigol a phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen. | Medi 2021 | Adolygu trefniadau gyda phroseswyr data; cwblhau unrhyw DPA sydd ei angen ac asesu bod cytundebau gan ddarparwyr yn cyrraedd gofynion. Creu llyfrgell o'r holl ddogfennau DPA a chytundebau eraill. | Cael y prif gytundebau ar waith erbyn **27.05.22** |
| 3 | **Rhannu polisïau a dogfennau i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd Llywodraethu (Pecyn Cam 3)** | Hydref 2021 | Pob ysgol i fabwysiadu'r polisïau a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY. | **08.04.22** (os heb wneud yn barod) |
| 4 | **Archwiliad Diogelu Data**<br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld â phob ysgol unigol i adolygu trefniadau a chydymffurfiaeth diogelu data. | Mawrth 2022 - Mehefin 2022 | Sesiwn hanner diwrnod gyda phob ysgol unigol | SDDY wedi cwblhau pob ymweliad unigol i ysgolion erbyn **30.06.22** |

Tudalen 32

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Adolygu Polisi Diogelu Data Ysgolion**<br>*(hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol)* | Ebrill 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y polisi (hyn yn cynnwys hyfforddiant ar 6 hefyd). | Mabwysiadu’r Polisi Diogelu Data Ysgolion diwygiedig a nodi ei fod wedi ei fabwysiadu ar yr ARhY erbyn **24.06.22** |
| 6 | **Rhannu polisïau a dogfennau i’w mabwysiadu’n ffurfiol gan y Bwrdd Llywodraethu (Pecyn Cam 4)** | Ebrill 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn (hyn yn cynnwys hyfforddiant ar 5 hefyd). | Mabwysiadu’r polisïau a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn **24.06.22** |
| 7 | **Rhannu Pecyn Cofnodion Gweithgareddau Prosesu a Chofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion** | Ebrill 2022 | SDDY i drefnu sesiynau cwblhau ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth gydag ysgolion sydd angen cymorth. | Cael ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth cyflawn a chyfredol a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn **27.05.22** |
| 8 | **Cwblhau Dogfennau DPIA**<br>Cychwyn cwblhau unrhyw DPIA sydd angen ei gwblhau. Cychwyn gyda systemau CCTV ysgolion unigol. | Ebrill 2022 | Cwblhau unrhyw DPIA sydd ei angen ar ysgolion unigol. Creu llyfrgell o’r holl ddogfennau DPIA er mwyn gallu eu rhannu ac addasu ar gyfer ysgolion unigol. | Cael y prif ddogfennau DPIA ar waith erbyn **01.07.22** |
| 9 | **Hyfforddiant Diogelu Data Llywodraethwyr Ysgol** | Ebrill 2022 | SDDY i gynnal sesiwn hyfforddiant diogelu data gyda llywodraethwyr ysgol. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar **26.04.22** |
| 10 | **Rhannu polisïau i’w mabwysiadu’n ffurfiol gan y Bwrdd Llywodraethu (Pecyn Cam 5)** | Mai 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn polisïau a phecyn ffurflenni caniatâd. | Mabwysiadu’r polisïau a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn **15.07.22** |
| 11 | **Rhannu Pecyn Ffurflenni Caniatâd** | Mai 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn a phecyn polisïau Cam 5. | Mabwysiadu’r ffurflenni caniatâd newydd erbyn **15.07.22 (i’w defnyddio ym mis Medi 2022)** |
| 12 | **Trafod materion diogelu data ysgolion â’r fforymau a rhannu newyddlen diweddariadau diogelu data ysgolion.** | Mai 2022 | SDDY i gyfarfod â phenaethiaid ar gyfer rhannu diweddariadau ac i adrodd ar gynnydd gyda’r Cynllun Diogelu Data Ysgolion. | Trafod y cynllun a rhannu’r newyddlen â’r ysgolion drwy’r fforymau erbyn **30.05.22** |

*** Amserlen i'w hadolygu gyda'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion yn dymhorol.**

**Gwaith fydd yn digwydd drwy'r flwyddyn ysgol:**

- adolygu trefniadau gyda phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen, ac adeiladu llyfrgell o'r cytundebau DPA;
- cwblhau unrhyw DPIAau sydd angen eu cwblhau (canolbwyntio ar systemau CCTV fel man cychwyn) ac adeiladu llyfrgell o ddogfennau DPIA;
- monitro pa bryd mae ysgolion wedi mabwysiadu polisïau a monitro cynnydd prif elfennau diogelu data drwy'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY).

**Gwaith mae Cwmni Celyn yn ymgymryd ag ef:**

- adolygu trefniadau gyda phroseswyr data ac asesu DPA penodol;
- cwblhau DPIA penodol;
- adolygu a diweddaru dogfen *Cyfnodau Cadw Ysgolion*;
- cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Cwmni Celyn er mwyn trafod cynllun gwaith a cynnydd.

Tudalen 35

**ATODIAD B**

**STRATEGAETH DATBLYGU DIOGELU DATA YSGOLION YNYS MÔN 2022-2023**
**Fersiwn Un**

| Rhif | Polisi, Canllawiau, Dogfennau Allweddol / Gweithgaredd | Dyddiad Cyflwyno i'r Ysgolion i Fabwysiadu / Cychwyn y Gwaith | Hyfforddiant / Codi Ymwybyddiaeth / Cymorth ar Gael | Dyddiad Targed i Gwblhau * |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Mapio Llif Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor**<br>Mapio'r llif data, *'data flows',* rhwng yr ysgolion a'r Cyngor er mwyn adnabod ble mae angen cytundeb a chreu DPA addas. | Medi 2021 | Mapio llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor a chreu cytundebau addas ar gyfer unrhyw drefniant sydd ar waith. | Gwaith mapio wedi ei gwblhau erbyn **17.02.23** |
| 2 | **Adolygu Trefniadau gyda Phroseswyr Data**<br>Adolygu trefniadau rhwng ysgolion unigol a phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen. | Medi 2021 | Adolygu trefniadau gyda phroseswyr data; cwblhau unrhyw DPA sydd ei angen ac asesu bod cytundebau gan ddarparwyr yn cyrraedd gofynion. Creu llyfrgell o'r holl ddogfennau DPA a chytundebau eraill. | Cael y prif gytundebau ar waith erbyn **17.02.23** (gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn barhaol) |
| 3 | **Hyfforddiant Diogelu Data Llywodraethwyr Ysgol** | Hydref 2022 | SDDY i gynnal sesiwn hyfforddiant diogelu data gyda llywodraethwyr Ysgol. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar **20.10.22** |
| 4 | **Rhannu polisïau i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd Llywodraethu (Pecyn Cam 5)** | Tachwedd 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn polisïau a phecyn ffurflenni caniatâd. | Mabwysiadu'r polisïau a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn **17.02.23** |
| 5 | **Rhannu Pecyn Ffurflenni Caniatâd** | Tachwedd 2022 | SDDY i gynnal sesiwn fesul dalgylch er mwyn rhoi hyfforddiant ar gynnwys y pecyn a phecyn polisïau Cam 5. | Mabwysiadu'r ffurflenni caniatâd newydd erbyn **17.02.23** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | **Rhannu Pecyn Cofnodion Gweithgareddau Prosesu a Chofrestr Asedau Gwybodaeth Ysgolion** | Rhagfyr 2022 | SDDY i drefnu sesiynau cwblhau ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth gydag ysgolion sydd angen cymorth. | Cael ROPA a Chofrestr Asedau Gwybodaeth cyflawn a chyfredol a nodi eu bod wedi eu mabwysiadu ar yr ARhY erbyn **31.03.23** |
| 7 | **Adolygu Polisi Diogelu Data Ysgolion** *(hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol)* | Rhagfyr 2022 | | Mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data Ysgolion diwygiedig a nodi ei fod wedi ei fabwysiadu ar yr ARhY erbyn **17.02.23** |
| 8 | **Cyflwyniad Diogelu Data yn y Sesiwn Anwytho/Ail-gyfarwyddo Penaethiaid** | Ionawr 2023 | SDDY i roi cyflwyniad diogelu data yn y sesiwn anwytho/ail-gyfarwyddo penaethiaid. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar **18.01.23** |
| 9 | **Hyfforddiant Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Pholisi E-byst Staff Ysgolion** | Ionawr 2023 | Cynnal sesiynau hyfforddiant gyda staff ysgolion. | Sesiynau wedi eu cynnal erbyn **06.04.23** |
| 10 | **Cwblhau Dogfennau DPIA** Rhannu templedi cyffredinol DPIA ag ysgolion unigol i'w haddasu. Cychwyn gyda systemau CCTV. | Ionawr 2023 | Rhannu llyfrgell o'r holl dempledi DPIA er mwyn gallu eu haddasu ar gyfer ysgolion unigol. | Ysgolion i gael y prif ddogfennau DPIA ar waith erbyn **06.04.23** (gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn barhaol) |
| 11 | **Creu Cynllun Adfer Trychineb a Pharhad Busnes** | Ionawr 2023 | Creu cynllun gall ysgolion ei ddilyn os oes trychineb neu ddigwyddiad fel bod parhad busnes o gwmpas cael mynediad at wybodaeth bersonol. | Rhannu'r Cynllun Adfer Trychineb a Pharhad Busnes gydag ysgolion erbyn **06.04.23** |
| 12 | **Hyfforddiant Diogelu Data Llywodraethwyr Ysgol** | Mawrth 2023 | SDDY i gynnal sesiwn hyfforddiant diogelu data gyda llywodraethwyr ysgol. | Sesiwn yn cael ei chynnal ar **16.03.23** |
| 13 | **Archwiliad Diogelu Data** Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld â phob ysgol unigol i adolygu trefniadau a chydymffurfiaeth diogelu data. | Mawrth 2023 - Mehefin 2023 | Sesiwn hanner diwrnod gyda phob ysgol unigol. | SDDY wedi cwblhau pob ymweliad unigol i ysgolion erbyn **30.06.23** |

*** Amserlen i'w hadolygu gyda'r Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion yn dymhorol.**

**Gwaith fydd yn digwydd drwy'r flwyddyn ysgol:**

- adolygu trefniadau gyda phroseswyr data a chwblhau unrhyw DPA sydd ei angen, ac adeiladu llyfrgell o asesiadau o'r cytundebau DPA;
- cwblhau unrhyw DPIAau sydd angen eu cwblhau ac adeiladu llyfrgell o ddogfennau DPIA;
- monitro pa bryd mae ysgolion wedi mabwysiadu polisïau a monitro cynnydd prif elfennau diogelu data drwy'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY).

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **7 CHWEFROR 2023** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2023/24** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON, UWCH GYFRIFYDD** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Ar gyfer sgriwtini – yn gyson â chyngor proffesiynol. | |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn rhoi arferion gorau ar waith yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymell y dylai'r aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei ARhT a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Chwefror 2020.

**3.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, diwygiwyd y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn dilyn y Datganiad ar gyfer 2022/23.

**4.** O dan y Côd Ymarfer, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf, ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyca a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd, a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. O dan y Côd diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021, bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru ar y modd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd rhaid i unrhyw newidiadau gael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn yr adroddiad Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24.

**5. Argymhellion**

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW A DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS 2023/24**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Cyhoeddodd CIPFA ei godau diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021 ac mae wedi datgan nad oes rhaid eu mabwysiadu'n ffurfiol nes blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y codau Ymarfer hyn wrth baratoi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**1.2.** Mae'r Côd Rheoli Trysorlys diwygiedig yn nodi bod rhaid priodoli pob buddsoddiad ac incwm buddsoddi i un o'r tri diben canlynol – Rheoli Trysorlys, Cyflenwi Gwasanaeth ac enillion Masnachol. Gan fod y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yma'n delio â buddsoddiadau rheoli trysorlys, ymdrinnir â'r categorïau cyflenwi gwasanaeth a buddsoddiadau masnachol fel rhan o'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf.

**1.3.** Mae'r Côd Rheoli Trysorlys diwygiedig yn nodi bod rhaid i'r Cyngor roi'r canlynol ar waith:

- Mabwysiadu dangosydd trysorlys ar gyfer meincnodi rhwymedigaethau i gynorthwyo i reoli risgiau ariannu'r gofyniad cyllid cyfalaf;
- Rhaid dynodi buddsoddiadau trysorlys tymor hir, (gan gynnwys cronfeydd cyfun), fel buddsoddiadau masnachol oni bai bod achos busnes llif arian i'w cyfiawnhau;
- Rhaid cynnwys cronfeydd cyfun yn y dangosydd ar gyfer y prif symiau sy'n aeddfedu mewn blynyddoedd tu hwnt i'r flwyddyn gyllideb wreiddiol;
- Diwygio'r gofrestr wybodaeth a sgiliau ar gyfer swyddogion ac aelodau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth rheoli trysorlys – dylai fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y gwaith rheoli trysorlys a gyflawnir gan bob awdurdod;
- Rhaid adrodd i aelodau bob chwarter. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 sefydlu prosesau i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion darbodus sy'n edrych at y dyfodol bob chwarter o leiaf;
- Materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fydd yn derbyn sylw ym mholisïau ac arferion rheoli trysorlys yr awdurdod (TMP1).

## 2. CEFNDIR

**2.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

*"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."*

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

**2.2.** Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon neu offerynnau risg isel sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.

**2.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.

**2.4.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 3. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**3.1.** Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob Aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf dilynol, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.

- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg a strategaeth y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau. Yn y bôn mae'n delio â dau faes: materion cyfalaf a materion rheoli trysorlys. Mae'r elfennau hyn yn ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Buddsoddi a Chanllawiau Darpariaeth Isafswm Refeniw Llywodraeth Cymru, Côd Darbodus CIPFA a Chôd CIPFA ar Reoli Trysorlys.

**3.2.** Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

## 4. CYD-DESTUN ALLANOL

**4.1.** Ni fedrir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrthbartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Disgwylir i Gyfradd y Banc gyrraedd ei lefel uchaf, sef 4.5%, erbyn mis Mai 2023.
- Mae disgwyl felly y bydd buddsoddi yn 2023/24 yn digwydd mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn codi yn y lle cyntaf, ond hefyd - o bosib - mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn gostwng yn rhan olaf y flwyddyn ariannol, gan ddibynnu ar ba mor gyflym y mae chwyddiant yn gostwng a'r perfformiad o ran twf.

**4.2.** Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**

**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at Ragfyr 2025**

| Cyfartaledd Blynyddol | Cyfradd Banc (%) | Cyfraddau Benthyca BBGC (yn cynnwys addasiad cyfradd sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 mlynedd | 50 mlynedd |
| Rhagfyr 2022 | 3.50 | 4.20 | 4.60 | 4.30 |
| Mawrth 2023 | 4.25 | 4.20 | 4.60 | 4.30 |
| Mehefin 2023 | 4.50 | 4.20 | 4.60 | 4.30 |
| Medi 2023 | 4.50 | 4.10 | 4.50 | 4.20 |
| Rhagfyr 2023 | 4.50 | 4.00 | 4.40 | 4.10 |
| Mawrth 2024 | 4.00 | 3.90 | 4.20 | 3.90 |
| Mehefin 2024 | 3.75 | 3.80 | 4.10 | 3.80 |
| Medi 2024 | 3.50 | 3.60 | 4.00 | 3.70 |
| Rhagfyr 2024 | 3.25 | 3.50 | 3.90 | 3.60 |
| Mawrth 2025 | 3.00 | 3.40 | 3.70 | 3.50 |
| Mehefin 2025 | 2.75 | 3.30 | 3.60 | 3.30 |
| Medi 2025 | 2.50 | 3.20 | 3.50 | 3.20 |
| Rhagfyr 2025 | 2.50 | 3.10 | 3.50 | 3.20 |

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Group, Treasury Solutions ynghlwm yn **Atodiad 4**.

**4.3.** Mae'r rhagolygon presennol, sydd i'w gweld uchod, yn cynnwys y rhagolygon y bydd y Gyfradd Banc yn cyrraedd 4.5% yn Ch2 2023. O ystyried y rhagolygon ar gyfer y gyfradd banc sylfaenol, mae'r cyfraddau elw tybiedig ar fuddsoddiadau am gyfnodau hyd at oddeutu dri mis yn ystod pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (mae'r rhagolwg tymor hir ar gyfer cyfnodau dros 10 mlynedd yn y dyfodol):-

2023/24: 4.40%;
2024/25: 3.30%;
2025/26: 2.60%;
2026/27: 2.50%;
Blynyddoedd y tymor hir: 2.80%

## 5. SEFYLLFA BRESENNOL Y CYNGOR

### 5.1. Benthyca

**5.1.1.** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

| BENTHYCIADAU'R BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **BBGC/ BBGC Aeddfedu** | **BBGC EIP/ Blwydd-dal** | **Benthyciadau Marchnad** | **BBGC Amrywiol** | **Cyfanswm Aeddfedu** |
| Benthyciad sy'n weddill | £119,400 | £178k | £0k | £0k | £119,578k |
| Oes cyfartalog (blynyddoedd) | 30.82 | 4.06 | 0.00 | 0.00 | 30.78 |
| Cyfradd cyfartalog (%) | 4.53 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.54 |

| BENTHYCIADAU ERAILL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Benthyciad Salix 1** | **Benthyciad Salix 2** | **Benthyciad Salix 3** | **Benthyciad Salix 4** | **Benthyciad Salix 5** | **Benthyciad Salix 5** | **CYFANSWM** |
| Balans sy'n weddill | £24k | £137k | £382k | £172k | £1,984k | £400k | **£3,099k** |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2028/29 | 2029/30 | 2031/32 | 2035/36 | |
| Cyfradd Llog (%) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

### 5.2. Buddsoddiadau

**5.2.1** Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr, cyfrifon ‘ar alw’ a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae’r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2022 oedd £46.2m).

**5.2.2** Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae’r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau, yn y lle cyntaf, ddiogelwch yr adneuon, eu hylifedd yn yr ail le ac yna’r enillion ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd yr enillion ar fuddsoddiadau’n cael ei haberthu er mwyn sicrhau’r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae’r elw cyfartalog ar fuddsoddiadau yn 1.11% (fel ar 31 Rhagfyr 2022).

## 6. EFFAITH CYNLLUNIAU’R DYFODOL AR FENTHYCA

**6.1.** Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido’n rhannol o fenthyciadau ac mae’r rhaglen gyfalaf, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i’w gweld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2023/24 – 2025/26**

| | 2023/24 £’000 | 2024/25 £’000 | 2025/26 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant nad yw’n ymwneud â’r CRT** | **15,110** | **8,450** | **4,959** |
| **CRT** | **31,847** | **34,351** | **27,659** |
| **Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **46,957** | **42,801** | **32,618** |
| **Cyllidir drwy** | | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | 13,352 | 5,561 | 5,071 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | 500 | 100 | 100 |
| **Arian wrth Gefn** | 0 | 0 | 0 |
| **Refeniw** | 6,987 | 6,391 | 5,999 |
| **Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau** | 26,118 | 30,749 | 21,448 |

**6.2.** Ffactor pwysig i’w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw’r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi’i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae’r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

**6.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu’r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw’n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) sy’n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw’r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.

**6.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i’r Cyngor sicrhau tâl i’r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a’r enw ar y tâl hwn yw’r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR). Yn unol â’r Rheoliadau, rhaid i’r Cyngor gymeradwyo datganiad DIR cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2023/24 yn **Atodiad 6**. Cafodd polisi DIR y Cyngor ei ddiwygio’n sylweddol yn 2018, ac unwaith eto ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ar 01 Ebrill 2022. Drwy wneud y tâl DIR bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau’r lefel o fenthyca mewnol.

**6.5.** Yn 2018, adolygodd y Cyngor ei bolisi DIR a mabwysiadodd ddull Rhandaliadau Cyfartal Oes Ased i gyfrifo ei dâl DIR ar gyfer benthyca gyda chymorth a benthyca digymorth. Mae'r polisi diwygiedig o 01 Ebrill 2022 yn mabwysiadu dull blwydd-dal, gan ddefnyddio dull tebyg i forgais ad-daliad safonol, lle mae swm yr ad-daliad, sy'n gyfuniad o ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol a'r llog, yn aros yn gyson ac, o ganlyniad, mae swm y benthyciad gwreiddiol a ad-delir yn y blynyddoedd cynnar yn isel ac mae'n cynyddu dros amser. Felly, o dan y dull blwydd-dal, mae'r tâl DIR yn isel yn y blynyddoedd cyntaf cyn cynyddu dros amser.

**6.6.** Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DIR mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DIR hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod ar gyfer ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2022, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £268k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DIR a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

**6.7.** Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DIR ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2022/23 i 2025/26**

| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** | **2025/26 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)** | | | | |
| **Balans Agoriadol y GCC** | **137,804** | **149,409** | **173,905** | **202,669** |
| Gwariant Cyfalaf | 46,153 | 46,957 | 42,801 | 32,618 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (18,331) | (13,352) | (5,561) | (5,071) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (830) | (500) | (100) | (100) |
| Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn | (13,933) | (6,987) | (6,391) | (5,999) |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw | (1,454) | (1,622) | (1,985) | (2,103) |
| **BALANS CAU'R GCC** | **149,409** | **173,905** | **202,669** | **222,014** |
| **Benthyca Allanol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Allanol** | **125,348** | **135,734** | **159,610** | **189,713** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 13,059 | 26,118 | 30,749 | 21,448 |
| Benthyca i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (2,673) | (2,242) | (646) | (639) |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | **135,734** | **159,610** | **189,713** | **210,522** |
| **Benthyciadau Mewnol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **12,456** | **13,675** | **14,295** | **12,956** |
| Amnewid Benthyciadau Mewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau Benthyca o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-daliadau Benthyciadau Allanol | 2,673 | 2,242 | 646 | 639 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw | (1,454) | (1,622) | (1,985) | (2,103) |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | **13,675** | **14,295** | **12,956** | **11,492** |
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | **149,409** | **173,905** | **202,669** | **222,014** |

## 7. STRATEGAETH FENTHYCA

**7.1.** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca, a defnyddiwyd arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus gan fod disgwyl i gyfraddau benthyca tymor canolig a thymor hir ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr. Hynny yw, bydd Cyfradd y Banc yn cynyddu yn ystod gweddill 2022 a hanner cyntaf 2023. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £13.675m yn allanol petai angen brys. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

**7.2.** Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2023/24. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- Os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio, ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir y byddant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bo modd.

### 7.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

**7.3.1** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau penodol yn parhau i allanoli benthyca, megis :-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn diffygdalu ar y ddyled), felly, bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**7.3.2** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**7.3.3** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2023/24 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch yn awr. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol. Mae rhagolygon Cyfradd Banc tymor hir (tu hwnt i 10 mlynedd) yn 2.5%. Gan fod holl gyfraddau sicrwydd PWLB ar hyn o bryd yn uwch na hyn, bydd angen adolygu strategaethau benthyca yn y cyd-destun hwnnw. Yn gyffredinol, gellir cael gwerth gwell am arian ym mhen byrrach y gromlin, a dylid ystyried arian Awdurdod Lleol i Awdurdod lleol sefydlog, tymor byr. Fodd bynnag, mae'n debygol bydd cyfraddau benthyca dros dro'n parhau yn agor i'r Cyfradd Banc, a gall hefyd fod yn ddeniadol tra bo'r farchnad yn disgwyl i chwyddiant, ac elw giltiau, i ddisgyn yn ôl hwyrach ymlaen yn 2023.

## 7.4. Benthyca ymlaen llaw i gwrdd ag anghenion

**7.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

**7.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-

1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
2. sicrhau bod rhwymedigaethau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
3. pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
6. ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**7.4.3** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd i fenthyca cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol blwyddyn neu flynyddol.

## 7.5. Aildrefnu Dyledion

**7.5.1** Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau yn ein portffolio dyled ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthyca newydd.

**7.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**7.5.3** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng i ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**7.5.4** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddynt ddigwydd.

## 7.6. Proffil Dyledion

**7.6.1.** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

## 8. STRATEGAETH FUDDSODDI

**8.1.** Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Mae siâp presennol y gromlin enillion yn awgrymu mai dyma'r achos ar hyn o bryd, ond mae'n bosib y bydd y Gyfradd Banc gyrraedd ei lefel uchaf yn ystod hanner cyntaf 2023 ac efallai y bydd yn gostwng mor fuan â rhan olaf 2023, felly byddai strategaeth fuddsoddi hyblyg yn briodol i fanteisio i'r eithaf ar enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

### 8.2. Rheoli Risg

**8.2.1** Mae CIPFA wedi ehangu ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y Tîm Rheoli Trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, sef, yn ei hanfod, prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**8.2.2** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau");
- Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus 2021 ("y Côd");
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2021.

**8.2.3** Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd ac archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw elfen o hylifedd i gwrdd ag anghenion llif arian ond hefyd i ystyried buddsoddi am gyfnodau o hyd at 12 mis gyda sefydliadau credyd uchel, gan amrywio'r dyddiadau aeddfedu, tra bod cyfraddau buddsoddi'n parhau'n uchel, yn ogystal â'r opsiynau ariannol ehangach.

**8.2.4** Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg fel a ganlyn:-

1. Defnyddir **meini prawf sylfaenol o ran statws credyd** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

2. **Gwybodaeth arall**: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd (**"credit default swaps"**) ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y graddfeydd credyd.

3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth eraill** a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartïon y gellir bod yn buddsoddi ynddynt.

4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae gan y Tîm Rheoli Trysorlys awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** o dan y categorïau buddsoddiadau 'penodol' ac 'amhenodol'.

   - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu fel buddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu yn fwy na blwyddyn.

   - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol**. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2023/24 (gweler **Atodiad 7**).

6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.

7. Nodir **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn **Atodiad 8**.

8. Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).

9. Ni fydd buddsoddiadau ond yn cael eu gwneud mewn gwrthbartïon o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol (gweler **Atodiad 9**).

10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw ac yn wyneb archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.

11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2022/23 dan **IFRS 9**, bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau offerynnau buddsoddi a allai arwain at newid andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r taliadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo darpariaeth statudol sy'n rhoi amser i awdurdodau lleol Cymru addasu eu portffolios o'r holl fuddsoddiadau cyfun trwy ohirio gweithredu IFRS 9 am bum mlynedd tan 31.03.23. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd y Llywodraeth yn cytuno ar estyniad pellach i'r ddarpariaeth hon.)

### 8.3. Polisi Teilyngdod Credyd

**8.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod elw neu enillion ar fuddsoddiadau hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fathau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol, a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodol ac amhenodol; a

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

**8.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo pan fo angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu pa fathau o offerynnau buddsoddi sy'n offerynnau penodol neu'n amhenodol, a hynny oherwydd eu bod yn darparu cronfa gyffredinol o wrthbartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio, yn hytrach na'u bod yn feini prawf sy'n diffinio'r math o offerynnau buddsoddi a fydd yn cael eu defnyddio.

**8.3.3** Caiff gwybodaeth am statws credyd ei darparu gan Link Group, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbartïon sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Bydd manylion am newidiadau i'r graddfeydd, newidiadau tebygol i'r graddfeydd (Watches) a gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfa ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**8.3.4** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Group. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu statws credyd gwrthbartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau statws credyd;
- Amrediadau yswirio colledion credyd (Credit Default Swaps (CDS)) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng o gael credyd yn unig.

**8.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Outlook) a rhagolygon credyd (Watches) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o amrediadau yswirio colledion credyd (CDS) a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Melyn: | 5 mlynedd * |
| Pinc tywyll : | 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.25 |
| Pinc golau : | 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.5 |
| Piws: | 2 flynedd |
| Glas: | 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a wladolwyd yn rhannol) |
| Oren: | 1 flwyddyn |
| Coch: | 6 mis |
| Gwyrdd: | 100 diwrnod |
| Dim lliw: | ddim i'w ddefnyddio |

**8.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**8.3.7** Fel arfer, y meini prawf isaf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer credyd fydd graddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 a graddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyriaeth i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall am y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnyddio.

**8.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd Link.

- Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

- Yn ogystal â graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y gweithgareddau 'yswirio colledion credyd' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad drwy ei wefan 'Passport', a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**8.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol a roddwyd i fanciau i'w helpu gyda'i broses gwneud penderfyniadau.

**8.3.10** Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd Tymor Byr a Hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae cyfradd ddyled sofran y DU wedi'i osod ar Ragolwg Negyddol gan y tri phrif asiantaethau graddio o ganlyniad i bolisi torri trethi Truss/Kwarteng nad oed wedi'i gyllido. Er bod llywodraeth Sunak/Hunt wedi tawelu'r marchnadoedd, nid yw canlyniad adolygiadau'r asiantaethau graddio yn hysbys eto, ond mae'n bosib y bydd graddfa ddyled sofran y DU yn cael ei israddio. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, nid fydd y cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

**8.3.11** Er bod prisiau CDS banciau (dangosyddion y farchnad o risgiau credyd), wedi codi'n gyflym yn ystod cyfnod llywodraeth Truss/Kwarteng, maent wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol ers hynny. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid yn sydyn, felly, bydd yn parhau i fod yn bwysig i ni ddal ati i fonitro pob agwedd o risg ac elw o dan yr amgylchiadau presennol. Mae Link yn monitro prisiau CDS fel rhan o'u gwasanaeth teilyngdod credyd i awdurdodau lleol ac mae gan y Cyngor fynediad i'r wybodaeth hon trwy ei borth 'Passport' a ddarperir gan Link.

### 8.4. Cyfyngiadau Gwledydd

**8.4.1** Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn yn **Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 9. LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**9.1.** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**9.2.** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau.

**9.3. Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau**

**9.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**9.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**9.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**9.3.4** Mae Côd Rheoli Trysorlys CIPFA yn datgan bod disgwyl i sefydliadau fod â gwybodaeth a sgiliau ffurfiol a chynhwysfawr neu bolisi hyfforddi ar gyfer caffael yn effeithiol a chadw gwybodaeth a sgiliau rheoli trysorlys ar gyfer y rhai hynny'n sy'n gyfrifol am reoli, cyflawni, llywodraethiant a gwneud penderfyniadau. Dylai'r Cyngor roi'r isod ar waith i fonitro ac adolygu gwybodaeth a sgiliau:

- Cofnodi presenoldeb mewn hyfforddiant a sicrhau y cymerir camau os yw presenoldeb gwael yn cael ei adnabod.
- Paratoi cynlluniau dysgu wedi'u teilwra ar gyfer swyddogion rheoli trysorlys ac aelodau bwrdd/aelodau'r cyngor.
- Ei gwneud yn ofynnol i swyddogion rheoli trysorlys ac aelodau bwrdd/aelodau'r cyngor gwblhau hunanasesiad yn erbyn y cymwyseddau angenrheidiol (mae 'hunanasesiad gan aelodau sy'n gyfrifol am graffu ar reoli trysorlys' ar gael i'w lawrlwytho ar wefan CIPFA).
- Cael cyswllt rheolaidd â swyddogion ac aelodau bwrdd/aelodau'r cyngor, a'u hannog i amlygu anghenion hyfforddi yn barhaus.

**9.3.5** Bydd yr Arweinydd Tîm Perfformiad a Chefnogaeth yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbyniwyd gan swyddogion sy'n ganolog i'r swyddogaeth Trysorlys. Yn yr un modd, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant rheoli trysorlys / cyllid cyfalaf a dderbyniwyd gan Aelodau.

**9.3.6** Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

**9.4. Cyngor Rheoli Trysorlys**

**9.4.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Group, Link Treasury Services Limited fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ail-wahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021 am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd, a Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.

**9.4.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod hefo'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**9.4.3** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn medru manteisio ar sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

## 9.5. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

**9.5.1.** Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn ymwneud â fforddiadwyedd a bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol, y meincnod rhwymdedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12**.

## 9.6. Adrodd

**9.6.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol.

**9.6.2** Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych yn ei flaen ac yn ymwneud â'r isod:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**9.6.3** Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn – bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**9.6.4** Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**9.6.5** Mae angen craffu'n ddigonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n cyflawni'r rôl hon.

**9.6.6** Yn ogystal â'r tri phrif adroddiad y cyfeirir atynt uchod, o 2023/24 bydd angen adroddiadau chwarterol hefyd. Fodd bynnag, nid oes rhaid adrodd ar yr adroddiadau ychwanegol hyn i'r Cyngor Llawn, ond mae'n rhaid craffu'n ddigonol arnynt. Y Pwyllgor Gwaith sydd yn cyflawni'r rôl hon.

**ATODIADAU**

**1.** Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
**2.** Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
**3.** Cefndir economaidd
**4.** Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
**5.** Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
**6.** Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR)
**7.** Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
**8.** Meini Prawf Gwrthbartïon
**9.** Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
**10.** Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
**11.** Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
**12.** Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
**13.** Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys

**Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys**

**1.** Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr Awdurdod, ei fancio, trafodion marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny".

**2.** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

**3.** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae, felly, wedi ymrwymo i egwyddorion ennill gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg mewn modd effeithiol.

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac

- arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisïau ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.

4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaethau a pholisïau rheoli trysorlys.

## ECONOMIC BACKGROUND

Against a backdrop of stubborn inflationary pressures, the easing of Covid restrictions in most developed economies, the Russian invasion of Ukraine, and a range of different UK Government policies, it is no surprise that UK interest rates have been volatile right across the curve, from Bank Rate through to 50-year gilt yields, for all of 2022.

Market commentators' misplaced optimism around inflation has been the root cause of the rout in the bond markets with, for example, UK, EZ and US 10-year yields all rising by over 200bps since the turn of the year. The table below provides a snapshot of the conundrum facing central banks: inflation is elevated but labour markets are extra-ordinarily tight, making it an issue of fine judgment as to how far monetary policy needs to tighten.

| | **UK** | **Eurozone** | **US** |
|---|---|---|---|
| **Bank Rate** | 3.5% | 2.0% | 4.25%-4.50% |
| **GDP** | -0.2%q/q Q3 (2.4%y/y) | +0.2%q/q Q3 (2.1%y/y) | 2.6% Q3 Annualised |
| **Inflation** | 10.7%y/y (Nov) | 10.1%y/y (Nov) | 7.1%y/y (Nov) |
| **Unemployment Rate** | 3.7% (Oct) | 6.5% (Oct) | 3.7% (Nov) |

Q2 of 2022 saw UK GDP revised upwards to +0.2% q/q, but this was quickly reversed in the third quarter, albeit some of the fall in GDP can be placed at the foot of the extra Bank Holiday in the wake of the Queen's passing. Nevertheless, CPI inflation has picked up to what should be a peak reading of 11.1% in October, although with further increases in the gas and electricity price caps pencilled in for April 2023, and the cap potentially rising from an average of £2,500 to £3,000 per household, there is still a possibility that inflation will spike higher again before dropping back slowly through 2023.

The UK unemployment rate fell to a 48-year low of 3.6%, and this despite a net migration increase of c500k. The fact is that with many economic participants registered as long-term sick, the UK labour force actually shrunk by c500k in the year to June. Without an increase in the labour force participation rate, it is hard to see how the UK economy will be able to grow its way to prosperity, and with average wage increases running at over 6% the MPC will be concerned that wage inflation will prove just as sticky as major supply-side shocks to food and energy that have endured since Russia's invasion of Ukraine on 22nd February 2022.


Throughout Q3 Bank Rate increased, finishing the quarter at 2.25% (an increase of 1%). Q4 has seen rates rise to 3.5% in December and the market expects Bank Rate to hit 4.5% by May 2023.

Following a Conservative Party leadership contest, Liz Truss became Prime Minister for a tumultuous seven weeks that ran through September and October. Put simply, the markets did not like the unfunded tax-cutting and heavy spending policies put forward by her Chancellor, Kwasi Kwarteng, and their reign lasted barely seven weeks before being replaced by Prime Minister Rishi Sunak and Chancellor Jeremy Hunt. Their Autumn Statement of 17th November gave rise to a net £55bn fiscal tightening, although much of the "heavy lifting" has been left for the next Parliament to deliver. However, the markets liked what they heard, and UK gilt yields have almost completely reversed the increases seen under the previous tenants of No10/11 Downing Street.

Globally, though, all the major economies are expected to struggle in the near term. The fall below 50 in the composite Purchasing Manager Indices for the UK, US, EZ and China all point to at least one, if not more, quarters of GDP contraction. In November, the MPC projected eight quarters of negative growth for the UK lasting throughout 2023 and 2024, but with Bank Rate set to peak at lower levels than previously priced in by the markets and the fiscal tightening deferred to some extent, it is not clear that things will be as bad as first anticipated by the Bank.

The £ has strengthened of late, recovering from a record low of $1.035, on the Monday following the Truss government's "fiscal event", to $1.22. Notwithstanding the £'s better run of late, 2023 is likely to see a housing correction of some magnitude as fixed-rate mortgages have moved above 5% and affordability has been squeezed despite proposed Stamp Duty cuts remaining in place.

In the table below, the rise in gilt yields, and therein PWLB rates, through the first half of 2022/23 is clear to see.




However, the peak in rates on 28th September as illustrated in the table covering April to September 2022 below, has been followed by the whole curve shifting lower.   PWLB rates at the front end of the curve are generally over 1% lower now whilst the 50 years is over 1.75% lower.

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| **Low** | 1.95% | 2.18% | 2.36% | 2.52% | 2.25% |
| **Date** | 01/04/2022 | 13/05/2022 | 04/04/2022 | 04/04/2022 | 04/04/2022 |
| **High** | 5.11% | 5.44% | 5.35% | 5.80% | 5.51% |
| **Date** | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 |
| **Average** | 2.81% | 2.92% | 3.13% | 3.44% | 3.17% |
| **Spread** | 3.16% | 3.26% | 2.99% | 3.28% | 3.26% |

After a shaky start to the year, the S&P 500 and FTSE 100 have climbed in recent weeks, albeit the former is still 17% down and the FTSE 2% up.  The German DAX is 9% down for the year.

**CENTRAL BANK CONCERNS – DECEMBER 2022**

In December, the Fed decided to push up US rates by 0.5% to a range of 4.25% to 4.5%, whilst the MPC followed by raising Bank Rate from 3% to 3.5%, in line with market expectations.  EZ rates have also increased to 2% with further tightening in the pipeline.

Having said that, the sentiment expressed in the press conferences in the US and the UK were very different.  In the US, Fed Chair, Jerome Powell, stated that rates will be elevated and stay higher for longer than markets had expected.  Governor Bailey, here in the UK, said the opposite and explained that the two economies are positioned very differently so you should not, therefore, expect the same policy or messaging.

Regarding UK market expectations, although they now expect Bank Rate to peak within a lower range of 4.5% - 4.75%, caution is advised as the Bank of England Quarterly Monetary Policy Reports have carried a dovish message over the course of the last year, only for the Bank to have to play catch-up as the inflationary data has proven stronger than expected.

In addition, the Bank's central message that GDP will fall for eight quarters starting with Q3 2022 may prove to be a little pessimistic.  Will the £160bn excess savings accumulated by households through the Covid lockdowns provide a spending buffer for the economy – at least to a degree?  Ultimately, however, it will not only be inflation data but also employment data that will mostly impact the decision-making process, although any softening in the interest rate outlook in the US may also have an effect (just as, conversely, greater tightening may also).

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group, Treasury Solutions*

## Rhagolygon Graddfeydd Llog 2022/2025

## Interest Rate Forecasts 2022/2025

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rate reduction effective as of the 1st November 2012.

| Link Group Interest Rate View | 19.12.22 | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 | Dec-25 |
| BANK RATE | 3.50 | 4.25 | 4.50 | 4.50 | 4.50 | 4.00 | 3.75 | 3.50 | 3.25 | 3.00 | 2.75 | 2.50 | 2.50 |
| 3 month ave earnings | 3.60 | 4.30 | 4.50 | 4.50 | 4.50 | 4.00 | 3.80 | 3.30 | 3.00 | 3.00 | 2.80 | 2.50 | 2.50 |
| 6 month ave earnings | 4.20 | 4.50 | 4.60 | 4.50 | 4.20 | 4.10 | 3.90 | 3.40 | 3.10 | 3.00 | 2.90 | 2.60 | 2.60 |
| 12 month ave earnings | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.50 | 4.30 | 4.20 | 4.00 | 3.50 | 3.20 | 3.10 | 3.00 | 2.70 | 2.70 |
| 5 yr PWLB | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.10 | 4.00 | 3.90 | 3.80 | 3.60 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.20 | 3.10 |
| 10 yr PWLB | 4.30 | 4.40 | 4.40 | 4.30 | 4.10 | 4.00 | 3.90 | 3.80 | 3.60 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.30 |
| 25 yr PWLB | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.50 | 4.40 | 4.20 | 4.10 | 4.00 | 3.90 | 3.70 | 3.60 | 3.50 | 3.50 |
| 50 yr PWLB | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.20 | 4.10 | 3.90 | 3.80 | 3.70 | 3.60 | 3.50 | 3.30 | 3.20 | 3.20 |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group*

*Additional notes by Link on this forecast table: -*

Our central forecast for interest rates was updated on 19 December and reflected a view that the MPC would be keen to further demonstrate its anti-inflation credentials by delivering a succession of rate increases. Bank Rate stands at 3.5% currently, but is expected to reach a peak of 4.5% in H1 2023.

Further down the road, we anticipate the Bank of England will be keen to loosen monetary policy when the worst of the inflationary pressures are behind us – but that timing will be one of fine judgment: cut too soon, and inflationary pressures may well build up further; cut too late and any downturn or recession may be prolonged.

The CPI measure of inflation looks to have peaked at 11.1% in Q4 2022 (currently 10.7%). Despite the cost-of-living squeeze that is still taking shape, the Bank will want to see evidence that wages are not spiralling upwards in what is evidently a very tight labour market.

Regarding the plan to sell £10bn of gilts back into the market each quarter (Quantitative Tightening), this has started and will focus on the short, medium and longer end of the curve in equal measure, now that the short-lived effects of the Truss/Kwarteng unfunded dash for growth policy are firmly in the rear-view mirror.

In the upcoming months, our forecasts will be guided not only by economic data releases and clarifications from the MPC over its monetary policies and the Government over its fiscal policies, but the on-going conflict between Russia and Ukraine. (More recently, the heightened tensions between China/Taiwan/US also have the potential to have a wider and negative economic impact.)

On the positive side, consumers are still estimated to be sitting on over £160bn of excess savings left over from the pandemic so that will cushion some of the impact of the above challenges. However, most of those are held by more affluent people whereas lower income families already spend nearly all their income on essentials such as food, energy and rent/mortgage payments.

**PWLB RATES**

- The yield curve movements have become less volatile of late and PWLB 5 to 50 years Certainty Rates are, generally, in the range of 4.10% to 4.80%.
- We view the markets as having built in, already, nearly all the effects on gilt yields of the likely increases in Bank Rate and the elevated inflation outlook.

**The balance of risks to the UK economy: -**

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is to the downside.

**Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates include: -**

- **Labour and supply shortages** prove more enduring and disruptive and depress economic activity (accepting that in the near-term this is also an upside risk to inflation and, thus, rising gilt yields).
- **The Bank of England** acts too quickly, or too far, over the next year to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- **UK / EU trade arrangements** – if there was a major impact on trade flows and financial services due to complications or lack of co-operation in sorting out significant remaining issues.
- **Geopolitical risks,** for example in Ukraine/Russia, China/Taiwan/US, Iran, North Korea and Middle Eastern countries, which could lead to increasing safe-haven flows.

**Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates: -**

- The **Bank of England is too slow** in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflationary pressures to build up too strongly and for a longer period within the UK economy, which then necessitates Bank Rate staying higher for longer than we currently project or even necessitates a further series of increases in Bank Rate.
- **The Government** acts too quickly to cut taxes and/or increases expenditure in light of the cost-of-living squeeze.
- **The pound weakens** because of a lack of confidence in the UK Government's fiscal policies, resulting in investors pricing in a risk premium for holding UK sovereign debt.
- Longer term **US treasury yields** rise strongly and pull gilt yields up higher than currently forecast.
- Projected **gilt issuance, inclusive of natural maturities and QT,** could be too much for the markets to comfortably digest without higher yields consequently.

**Borrowing advice:** Our long-term (beyond 10 years) forecast for Bank Rate stands at 2.5%. As all PWLB certainty rates are currently above this level, borrowing strategies will need to be reviewed in that context. Better value can generally be obtained at the shorter end of the curve and short-dated fixed LA to LA monies should be considered. Temporary borrowing rates are likely, however, to remain near Bank Rate and may also prove attractive whilst the market waits for inflation, and therein gilt yields, to drop back later in 2023.

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2023/24 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2023/24 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Aeddefedu PWLB Maturity £'000** | **Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2023/24 | 1,854 | 16 | 0 | 0 | 1,870 | 1.6 |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 1,381 | 21 | 0 | 0 | 1,402 | 1.2 |
| 2027/28 | 2,165 | 24 | 0 | 0 | 2,189 | 1.8 |
| 2028/29 | 262 | 26 | 0 | 0 | 288 | 0.2 |
| 2029/30 | 1,539 | 21 | 0 | 0 | 1,560 | 1.3 |
| 2030/31 | 451 | 15 | 0 | 0 | 466 | 0.4 |
| 2031/32 | 1,941 | 9 | 0 | 0 | 1,950 | 1.6 |
| 2032/33 | 315 | 8 | 0 | 0 | 323 | 0.3 |
| 2033/34 | 637 | 0 | 0 | 0 | 637 | 0.5 |
| 2034/35 | 624 | 0 | 0 | 0 | 624 | 0.5 |
| 2035/36 | 611 | 0 | 0 | 0 | 611 | 0.5 |
| 2036/37 | 599 | 0 | 0 | 0 | 599 | 0.5 |
| 2037/38 | 587 | 0 | 0 | 0 | 587 | 0.5 |
| 2038/39 | 225 | 0 | 0 | 0 | 225 | 0.2 |
| 2039/40 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.9 |
| 2042/43 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0.8 |
| 2043/44 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 1,020 | 0.9 |
| 2044/45 | 1,010 | 0 | 0 | 0 | 1,010 | 0.8 |
| 2045/46 | 11,464 | 0 | 0 | 0 | 11,464 | 9.6 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 1.7 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 23.6 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 2.5 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.9 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 7.1 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.5 |
| 2064/65 | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 8.4 |
| 2066/67 | 6,200 | 0 | 0 | 0 | 6,200 | 5.2 |
| 2068/69 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 12.5 |
| | **119,400** | **178** | **0** | **0** | **119,578** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years | 30.82 | 4.06 | 0.00 | 0.00 | 30.78 | |
| Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%) | 4.53 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.54 | |

| PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2023/24 YMLAEN / OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2023/24 ONWARDS | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Benthyciad Salix Loan 1 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 2 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 3 £'000** | **Benthyciad Salix Loan £'000** | **Benthyciad Salix Loan 5 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 6 £'000** | **Cyfanswm / Total £'000** |
| 2023/24 | 16 | 46 | 64 | 26 | 220 | 0 | 372 |
| 2024/25 | 8 | 45 | 64 | 26 | 220 | 264 | 628 |
| 2025/26 | 0 | 45 | 64 | 26 | 220 | 264 | 619 |
| 2026/27 | 0 | 0 | 64 | 27 | 220 | 264 | 575 |
| 2027/28 | 0 | 0 | 63 | 27 | 220 | 264 | 574 |
| 2028/29 | 0 | 0 | 63 | 27 | 221 | 264 | 575 |
| 2029/30 | 0 | 0 | 0 | 13 | 221 | 265 | 499 |
| 2030/31 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2031/32 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2032/33 | | | | | | 265 | 265 |
| 2033/24 | | | | | | 265 | 265 |
| 2034/35 | | | | | | 265 | 265 |
| 2035/36 | | | | | | 265 | 265 |
| **Cyfanswm / Total** | 24 | 137 | 382 | 172 | 1,984 | 3,175[1] | 5,874 |

[1] Total amount to be repaid differs from the total amount outstanding in Table 5.1.1 due to only having received £400k to date, however £3,175k will be received.

**ATODIAD 6**

**Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw Isaf (MRP) ar gyfer 2022/23**

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor a'r CRT sydd wedi cronni bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - CFR) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf - MRP), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os oes angen (darpariaeth refeniw wirfoddol - VRP).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad MRP cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad MRP isod:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir MRP drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Mae'n bosib na fydd taliadau MRP sy'n seiliedig ar ddull blwydd-dal oes ased yn dod i rym tan y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Gall y Swyddog Adran 151 ohirio'r tâl MRP tan y flwyddyn gyllidol sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Bydd amcangyfrifo oes yr ased, cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y MRP yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r MRP ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

Bydd yr MRP a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am ei gyfran o'r benthyca â chefnogaeth a digefnogaeth, hefyd yn seiliedig ar y dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Bydd unrhyw ad-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau cyllid yn cael eu gweithredu fel MRP ac yn gyson â'r sail blwydd-dal oes ased dros oes y brydles neu'r cynllun PFI.

**ATODIAD 7**

## Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

**(a)** bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a

**(b)** nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a

**(c)** nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a

**(d)** gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:

- **(i)** Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- **(ii)** awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- **(iii)** cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2023/24 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 8 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2023/24 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

* *Mae Adran 2.4 y Canllawiau'n diffinio buddsoddiad tymor hir fel "Unrhyw fuddsoddiad heblaw (a) un y mae disgwyl iddo gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y buddsoddiad neu (b) un y gallai'r awdurdod lleol fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu o fewn y cyfnod hwnnw."*

** *I ddibenion ansawdd credyd uchel dywed y Canllawiau "At ddibenion paragraff 5.1 (d), mae gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth ddiffinio ansawdd credyd uchel (a lle mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 6.1 (***) yn berthnasol)."*

*** *Mae paragraff 6.1 y Canllawiau'n argymell "Dylai'r Strategaeth nodi dull yr awdurdod o asesu'r risg o golli buddsoddiadau, gan egluro'n benodol :*
*(a) i ba raddau, os o gwbl, mae asesiad risg yn seiliedig ar statws credyd a gyhoeddwyd gan un neu fwy o asiantaethau statws credyd;*
*(b) pan ddefnyddir statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd pan fydd graddfeydd yn newid; a*
*(c) pa ffynonellau gwybodaeth eraill ar risg credyd a ddefnyddir, yn ychwanegol at neu yn lle statws credyd."*

*Mae'r tabl yn Atodiad 8 y strategaeth hon yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor hwn yn ei ddiffinio fel ansawdd credyd uchel a'r meini prawf a'r terfynau buddsoddi cysylltiedig ac mae adran 7.3 o'r strategaeth hon yn nodi dull teilyngdod credyd y Cyngor.*

## Meini Prawf Gwrthbartïon

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol) | F1+ | P-1 | A-1+ | AAA | Aaa | AAA | £10m | 5 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA | Aa2 | AA | £10m | 3 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA- | Aa3 | AA- | £10m | 364 diwrnod |
| | F1 | P-1 | A-1 | A | A2 | A | £7.5m | 6 mis |
| Banciau'r Deyrnas Unedig sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Banc y NatWest (wedi ei Wladoli'n Rhannol) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £30m | 364 diwrnod |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig (waeth beth fo'r raddfa credyd) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | Dim uchafswm | Dim uchafswm |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig ** | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Cronfeydd Marchnad Arian | d/b | d/b | d/b | AAA | AAA | AAA | £5m | 6 mis |

*****fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

**<u>Nodiadau ac Eglurhad</u>**

**(1) <u>Terfyn Arian Parod</u>**

**(i)** Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

**(ii)** Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

**(2) <u>Terfyn Amser</u>**

**(i)** I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

**(3) <u>Arian Gwledydd Tramor</u>**

**(i)** Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwadur lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Unedig waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Unedig a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

**(iv)** Ni fydd meini prawf graddfa credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol eraill (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

**(4) <u>Graddfa Credyd yn Gostwng</u>**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 19 Rhagfyr 2022]**

*Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.*

***Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael***

AAA
- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+
- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA
- Abu Dhabi (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)
- Ffrainc

AA-
- Gwlad Belg
- Qatar
- **Y Deyrnas Unedig**

**ATODIAD 10**

**Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR), Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-

  - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
  - Derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn**

**cynnwys:**


- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

| DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS<br>GOSOD CYLLIDEB 2023/24 | | | | | | ATODIAD 11 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Dangosydd** | | | | | | |
| | **Fforddiadwyedd** | **Alldro 2021/22** | **Amcangyfrif 2022/23** | **Cynnig 2023/24** | **Cynnig 2024/25** | **Cynnig 2025/26** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 4.50% | 2.81% | 2.23% | 2.95% | 3.10% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys y setliad) | 9.12% | 18.41% | 21.14% | 26.12% | 29.36% |
| | Cyfanswm | 5.04% | 4.56% | 4.25% | 5.46% | 6.06% |
| **Bod yn Ddarbodus** | | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwariant Cyfalaf** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf | | | | | |
| | | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 23,734 | 34,068 | 15,110 | 8,450 | 4,959 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 9,723 | 12,085 | 31,847 | 34,351 | 27,659 |
| | Cyfanswm | **33,457** | **46,153** | **46,957** | **42,801** | **32,618** |
| **6,7** | Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu'r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 99,387 | 108,871 | 116,576 | 120,181 | 120,673 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 38,415 | 40,536 | 60,101 | 85,261 | 104,114 |
| | Cyfanswm | **137,802** | **149,407** | **176,677** | **205,442** | **224,787** |
| **Dyled Allanol** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 175,000 | 175,000 | 205,000 | 235,000 | 255,000 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | **180,000** | **180,000** | **210,000** | **240,000** | **260,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Terfyn Gweithredol | | | | | |
| | : Benthyca cyffredinol | 170,000 | 170,000 | 200,000 | 230,000 | 250,000 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | **175,000** | **175,000** | **205,000** | **235,000** | **255,000** |
| **10** | Gwir Ddyled Allanol | **125,348** | | | | |
| **Rheoli Trysorlys** | | **Alldro 2021/22** | **Amcangyfrif 2022/23** | **Cynnig 2023/24** | **Cynnig 2024/25** | **Cynnig 2025/26** |
| **11** | Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | *(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn)* | | | | | |
| | | | **Terfyn uchaf 2023/24** | | **Terfyn isaf 2023/24** | |
| **12** | Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a mwy | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |
| **13** | Meincnod Rhwymedigaethau (gweler y siart isod) | | | | | |

# Meincnod Rhwymedigaethau



ATODIAD 12

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys**

# DANGOSYDDION DARBODUS

## A) Fforddiadwyedd

### 1 & 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

## B) Bod yn ddarbodus

### 3 Dyled Gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2023/24 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

## C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel ariannu gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

### 4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2022/23 hyd at 2025/26 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

### 6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw (DIR) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau o'r fath yn y GCC.

**CH) Dyled Allanol**

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gynghorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.

10. **Gwir ddyled allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthyca gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymiadau tymor hir eraill, ac felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

## DANGOSYDDION TRYSORLYS

11. **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill arian. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.

12. **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**. Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido**.**

13. **Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24 yw'r Meincnod Rhwymedigaethau. Mae'n rhaid i'r Cyngor amcangyfrif a mesur y meincnod rhwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ddilynol.

    Mae'r Meincnod Rhwymedigaethau'n cynnwys pedwar rhan:-

    1. **Dyledion benthyciadau cyfredol sy'n ddyledus**: benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.

2. **GCC Benthyciadau**: mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côd Darbodus ac mae amcangyfrifon i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthyca darbodus a gymeradwywyd a DIR a gynlluniwyd.
3. **Gofyniad benthyca net**: Bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor wedi tynnu buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthyca darbodus a gymeradwywyd, DIR a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthyca gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthyca net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

## Geirfa

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (DIR)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHYMORTH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DIGYMORTH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côd y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 07 Chwefror 2023 |
| **Pwnc:** | Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sefydlu a yw'n parhau i fod briodol. Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Ebrill 2022, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae pwyllgorau archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol ac yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi awdurdodau lleol. Maent yn ffynhonnell sicrwydd bwysig ynghylch trefniadau sefydliad i reoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall.

1.2. Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu ar gyfer adolygiad rheolaidd o'i gylch gorchwyl. Yn sgil yr adolygiad diwethaf, cymeradwywyd cylch gorchwyl a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n llawn o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.3. Er i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) gyhoeddi canllawiau penodol i'r sector wedi'u diweddaru ym mis Rhagfyr 2022[1] nid yw'n cynnwys unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y cylch gorchwyl, felly nid oes angen unrhyw newidiadau.

## 2. Argymhelliad

4.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl cyfredol.

[1] https://www.cipfa.org/policy-and-guidance/publications/a/audit-committees-practical-guidance-for-local-authorities-and-police-2022-edition

## 3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Datganiad o bwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

3.4.8.1.3 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

3.4.8.1.4 Mae hefyd yn derbyn sylwadau ar adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

### 3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; wyth aelod etholedig a pedwar aelodau lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-Gadeirydd yn aelod o'r pwyllgor gwaith na'n gynorthwyydd i'r pwyllgor gwaith. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 Rhaid i gadeirydd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg. Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar Gadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4  Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

3.4.8.2.7 Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o’r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

3.4.8.2.8 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.9 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

**3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd**

3.4.8.3.1 Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy’n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau

ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

**3.4.8.4 Llywodraethu**

3.4.8.4.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

3.4.8.4.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymateb drafft y cyngor a’r pwyllgor gwaith i asesiad o berfformiad gan banel ac, os yw’n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i’r ymateb drafft. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.4.16.

3.4.8.4.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac, os yw’n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i’r adroddiad. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.4.15.

3.4.8.4.5 Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.6 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

**3.4.8.5 Rheoli Trysorlys**

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

**3.4.8.6 Gwerth am arian**

3.4.8.6.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.6.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi'r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

3.4.8.7.2 Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
- Goruchwylio'r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arferion, y safonau llywodraethu a'r ddeddfwriaeth a argymhellir.

3.4.8.9.3. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.4 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

**3.4.8.10 Archwiliad mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

3.4.8.10.2 Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:

- goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb
- cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
- hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

3.4.8.10.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.5 Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.6 Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

3.4.8.10.7 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.8 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.9 Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.10 Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.12 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.13 Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i'r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.14. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

3.4.8.10.15 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.16 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â'r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

3.4.8.10.17 Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

**3.4.8.11 Archwiliad allanol**

3.4.8.11.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r pwyllgor  Llywodraethu ac Archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o’r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

**3.4.8.12 Adrodd ariannol**

3.4.8.12.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

**3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**3.4.8.14 Delio â Chwynion**

3.4.8.14.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

3.4.8.14.2 Bydd y pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

**3.4.8.15 Adroddiad Hunanasesu**

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor yn derbyn drafft o adroddiad hunanasesu'r cyngor [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu'r prif gynghorau)]

3.4.8.15.2 Bydd y pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft gan y cyngor cyn pen pedair wythnos i'r cyngor wneud yr adroddiad.

3.4.8.15.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir gan y cyngor o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, er mwyn cynyddu i ba raddau y bydd yn cwrdd â'r gofyniad perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**.**

**3.4.8.16 Asesiad o berfformiad gan Banel**

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.4.8.16.2 Rhaid i'r cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf.

3.4.8.16.3 Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pan na wnaethpwyd y newid ganddo.

### 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol

3.4.8.17.1 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw’r cyngor, neu efallai nad yw’r cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.2 Pe bai gofyn i'r cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.17.1 uchod, rhaid i'r cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.3 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 07 Chwefror 2023 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 (f7) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Blaenraglen Waith (f7) ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

2. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor yn sgil y ddeddf newydd.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

   - yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2022-23 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f7)

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f2 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021-22 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f3 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f4 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f5 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f6 (3.4.8.3.2) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f7 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>~~Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2021-22 (3.4.8.4.4)~~ | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2021-22 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2023-24) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth~~ | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn~~ | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn | ~~Adroddiad Yswiriant~~ |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~2021-22 (3.4.8.7.1)~~<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 (3.4.8.7.1) | | ~~ysgolion (3.4.8.7.1)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Caffael 2021-22 (3.4.8.7.1)~~ | | ysgolion (3.4.8.7.1) | ~~Blynyddol (3.4.8.7.1)~~[1]<br><br>Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.7.1) |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | | | ~~Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 (3.4.8.9.4) | | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (3.4.8.9.2/3) | | | |



[1] Gohiriwyd tan gyfarfod Mehefin 2023 er mwyn rhoi'r cyfle i waith diwedd y flwyddyn cael ei gwblhau

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11)<br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24 (3.4.8.10.1/2/5/6) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 (3.4.8.11.3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2022-23 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr | | | | | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Eraill (3.4.8.13) | | | | | | | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chywthu Chwiban 2021-22 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22 (3.4.8.14.1/2) | | | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[2] | | | | | | | | |

[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu | Rhithiol | Jo Hendy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 23 Mehefin 2022 | 11 / 12 (92%) |
| Datganiadau Ariannol | Rhithiol | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | 13 Gorffennaf 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Cwynion | Rhithiol | Matthew Harris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 9 Medi 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Rheoli Trysorlys | Rhithiol | Richard Bason, Uwch Gyfarwyddwr, Link Treasury Services | 14 Medi 2022 | 7 / 12 (58%) |
| Rheoli Risg | | Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant | | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 07 Chwefror 2023 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Ionawr 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Tachwedd 2022, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## CHWEFROR 2023

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ______ 3
Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (Archwiliad Grant) ______ 3
Rheoli Gwendidau TG (Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf) ______ 4
Camgymeriad Debyd Uniongyrchol y Dreth Gyngor ______ 5
Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth) ______ 6
GWAITH AR Y GWEILL ______ 7
CAMAU GWEITHREDU SY’n weddill ______ 8
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT ______ 9
Capasiti Presennol ______ 9
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ______ 9
Risgiau Strategol Coch ac Ambr ______ 9
Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ______ 9
Gwaith Arall ______ 10
Blaenoriaethau Tymor Hwy ______ 10
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY’N WEDDILL AR 31 IONAWR 2023 (DANGODFWRDD 4ACTION) ______ 11

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2022, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** darn o waith sicrwydd archwilio mewnol yn ystod y cyfnod dan sylw, ac maent wedi'u crynhoi isod

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol / Rheswm am yr archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (Archwiliad Grant)** | Gofyniad grant | Ionawr 2023 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoli Gwendidau TG (Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf)** | YM4 | Ionawr 2023 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 0 | 2 |
| **Camgymeriad Debyd Uniongyrchol y Dreth Gyngor** | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Ionawr 2023 | **n/a** | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth)** | Cais gan y Prif Weithredwr | Ionawr 2023 | **Cyfyngedig** | 0 | 1 | 4 | 5 |

## Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (Archwiliad Grant)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A oes gan y Cyngor fesurau rheoli a chofnodion digonol mewn perthynas â'r Grant Cronfa Adfywio Cymunedol i sicrhau fod y cyllid wedi'i ddefnyddio'n briodol, yn unol â thelerau perthnasol y grant?**

4. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod mesurau rheoli mewnol a chofnodion digonol ar waith gan y Cyngor i sicrhau fod cyllid Cronfa Adfywio Cymunedol y DU wedi cael ei ddefnyddio'n briodol, yn unol â thelerau perthnasol y grant.

5. Yn benodol, gan fod y Cyngor yn gyfrifol am gyflawni dau brosiect, Adfywio Môn a Môn Ymlaen, yn ogystal â bod yn awdurdod arweiniol ar gyfer y gronfa, cadarnhaodd ein hadolygiad fod mesurau rheoli addas ar waith, megis dirprwyo cyfrifoldebau'n briodol a threfniadau adrodd mewnol, er mwyn sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer gwahanu'r swyddogaethau cyflawni a gweinyddu.

6. Mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli a monitro unrhyw duedd neu wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig mewn perthynas â'r grant Cronfa Adfywio Cymunedol. Yn ogystal, ceisiodd y Cyngor sicrwydd fod trefniadau tebyg ar waith gan sefydliadau a oedd yn gyfrifol am gyflawni prosiectau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad corfforaethol ar hyn o bryd i'r Cyngor dderbyn datganiadau i nodi nad oes buddiannau i'w datgan'[1].

7. Yn gyffredinol, roedd canlyniadau ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan; felly, gallwn ddarparu **sicrwydd rhesymol** mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y Cyngor wrth weinyddu grant Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.

## Rheoli Gwendidau TG (Dilyn i Fyny am y Tro Cyntaf)

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 2 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

8. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion/risgiau a oedd angen sylw a godwyd yn wreiddiol yn ein hadroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ar Reoli Gwendidau TG ym mis Awst 2022?**

9. Comisiynwyd arbenigwr archwilio TG allanol gennym i gynnal adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer lliniaru'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwendidau TG a rheoli patsys, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2022. Cododd yr adolygiad bum mater/risg i reolwyr weithredu arnynt. Oherwydd natur y risgiau a nodwyd, a'u heffaith bosib, 'Sicrwydd Rhesymol' yn unig yr oeddem yn gallu ei ddarparu ar y pryd ar gyfer trefniadau'r Cyngor. Cynhaliom adolygiad dilyn i fyny ym mis Ionawr 2023 i fesur cynnydd wrth fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

[1] Ar hyn o bryd rydym yn cynnal archwiliad ar wahân, ar draws y Cyngor, ar 'Ddatganiadau o Ddiddordeb', a fydd yn cynnwys dyfarnu, cyflawni a gweinyddu grantiau.

10. Daeth ein hadolygiad dilyn i fyny i'r casgliad fod y Tîm TG wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth gryfhau mesurau rheoli yn y maes hwn a gwnaed gwelliannau gweithdrefnol a thechnegol sy'n cynorthwyo i liniaru'r risg o gam-fanteisio ar wendidau TG a fyddai'n arwain at ymosodiad seiber llwyddiannus.

11. Mae'r Tîm TG wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thri o'r materion/risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol ac mae gwaith ar y ddau sy'n weddill wedi hen ddechrau, gyda dim ond un dyddiad targed yn llithro, a hynny o fis yn unig.

12. Rydym yn fodlon felly fod trefniadau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwendidau TG a phatsys wedi gwella ers ein hadolygiad gwreiddiol, ac felly gallwn godi'r lefel sicrwydd i **'Rhesymol'**. Byddwn yn parhau i fonitro'r ddwy weithred sy'n parhau i fod angen sylw, fel rhan o'n system fonitro fewnol, i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannau a bod y materion/risgiau cysylltiedig yn derbyn sylw.

## Camgymeriad Debyd Uniongyrchol y Dreth Gyngor

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

13. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau fod taliadau debyd uniongyrchol y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) yn cael eu prosesu'n gywir, yn llawn, ar yr amser cywir, ar y diwrnod cywir ac unwaith yn unig?**

14. Yn dilyn camgymeriad wrth brosesu debyd uniongyrchol y dreth gyngor a threthi annomestig cenedlaethol, gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad o'r prosesau presennol ar gyfer casglu taliadau debyd uniongyrchol y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol, y broses ar gyfer ad-dalu'r rheiny a gafodd eu heffeithio, a gwelliannau arfaethedig gan y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r risg y gallai camgymeriadau tebyg gael eu gwneud eto yn y dyfodol.

15. Cadarnhaodd ein hadolygiad mai gwall dynol oedd yn gyfrifol am y digwyddiad, a wnaed yn bosib gan amgylchiadau unigryw yn ystod cyfnod gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gyda ffeiliau debyd uniongyrchol tri dyddiad talu'n cael eu prosesu ymlaen llaw, gan achosi dryswch a chamgymeriadau.

16. Mae'r gwasanaeth yn rhoi proses awdurdodi fwy cadarn ar waith fel bod swyddog annibynnol yn gwirio holl ffeiliau debyd uniongyrchol y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol cyn eu rhyddhau. Er mwyn cryfhau'r broses hon a sicrhau fod y mesurau rheoli'n parhau i weithio'n effeithiol, rydym yn cynghori y dylid cadw cofnod o'r broses awdurdodi drwy restru'r holl wiriadau unigol a gofyn i'r swyddog perthnasol lofnodi i ddangos eu bod wedi'u cwblhau. Gweler y cynllun gweithredu isod.

17. Ad-dalodd y Cyngor yr holl daliadau Treth Gyngor a gymerwyd mewn camgymeriad o fewn 24 awr o gael ei hysbysu am y digwyddiad, ac ad-dalwyd holl daliadau debyd uniongyrchol y Dreth Annomestig Genedlaethol a gymerwyd mewn camgymeriad erbyn 5 Ionawr 2023. Mae camau cyflym y Cyngor i ad-dalu'r taliadau Treth Gyngor wedi arwain at ordaliad, ond mae'r Cyngor yn cymryd camau i adennill y gordaliad ar hyn o bryd.

18. I grynhoi, mae'r digwyddiad yn amlygu'r angen am fesurau rheoli mwy cadarn mewn perthynas â phrosesu taliadau debyd uniongyrchol y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn fodlon fod y gwasanaeth yn mynd ati i roi'r newidiadau hyn ar waith.

19. Oherwydd y risg o gamgymeriadau tebyg mewn meysydd eraill yn y Cyngor sy'n prosesu taliadau debyd uniongyrchol, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach i sicrhau fod mesurau yn y maes hwn yn effeithiol ar draws y Cyngor a bod y risgiau cysylltiedig yn cael eu lleihau.

## Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth)

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

20. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A yw trefniadau llywodraethu partneriaeth Galw Gofal yn addas i bwrpas i sicrhau fod llywodraethiant, perfformiad a sefydlogrwydd ariannol yn ddigonol?**

21. Daw ein hadolygiad i'r casgliad cyffredinol, er bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni ei ran o'r gwaith o lywodraethu'r bartneriaeth Galw Gofal yn ddigonol ar y cyfan, oherwydd nifer y gwendidau a nodwyd yn y mesurau rheoli llywodraethiant, ac yn benodol ynghylch ei rwymedigaethau mewn perthynas â diogelu data, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gallwn ei ddarparu ei fod yn rheoli ei holl risgiau llywodraethiant yn ddigonol.

22. Oherwydd sensitifrwydd masnachol y bartneriaeth, mae aelodau wedi derbyn copi ar wahân o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu, a chynhelir unrhyw drafodaeth mewn sesiwn breifat o'r cyfarfod, yn unol â Pharagraff 14, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

# GWAITH AR Y GWEILL

23. Mae'r darnau canlynol o waith ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | d/b | Adnoddau | Codwyd pryderon yn ystod archwiliad o Bensiynau Athrawon | Wedi'i ohirio |
| Archwiliad TG - Cyfrifiadura Cwmwl | YM3 | Trawsnewid Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith Maes |
| Adennill Mân Ddyledion y Cyngor | d/b | Adnoddau | Dilyn i fyny am y tro cyntaf - Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig o fis Tachwedd 2021 | Gwaith Maes |
| Taliadau - Cynnal Cyflenwyr / Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg | d/b | Adnoddau | Dilyn i fyny am yr ail dro - Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig o fis Ebrill 2022 | Gwaith Maes |
| Diogelwch Nwy | d/b | Tai | Cais gan y Pennaeth Tai | Gwaith Maes |
| Effeithiolrwydd y Cyngor wrth reoli ei risg strategol 'YM11 - Tlodi' | YM11 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith Maes |
| Datganiadau o Ddiddordeb | d/b | Corfforaethol | Nodwyd gan Asesiad o'r Risg o Dwyll | Gwaith Maes |

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

24. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith. Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o statws y camau gweithredu ar 31 Ionawr 2023.

25. Mae 9 o gamau gweithredu hwyr ar hyn o bryd (2 Sylweddol; 7 Cymedrol), sydd yn ymwneud â 'Materion/Risgiau' a godwyd yn dilyn yr archwiliadau canlynol:

- Proses Ymadawyr
- Taliadau - Cynnal Cyflenwyr / Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg - archwiliad dilyn i fyny'n mynd rhagddo ar hyn o bryd
- Ad-daliadau Treth Cyngor a Threthi Annomestig

26. Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau i gynorthwyo i roi'r camau gweithredu ar waith.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT

## Capasiti Presennol

27. Ar hyn o bryd mae gennym ddwy swydd wag ar lefel Uwch Archwiliwr - un oherwydd secondiad tymor hir ac un oherwydd ymddiswyddiad. Nid ydym wedi llwyddo i ddenu digon o ymgeiswyr addas er ein bod wedi ceisio recriwtio ar dri achlysur.

28. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol, gan gynnwys archwiliad TG technegol gan y Tîm Archwilio TG yng Nghyngor Salford.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

29. Rydym yn parhau i gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2022-23 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022. Ein blaenoriaeth yw adolygu'r risgiau 'coch' ac 'ambr' nad ydym wedi eu hadolygu eto, neu nad ydynt wedi'u hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, tra'n parhau i fod yn hyblyg i ymateb i geisiadau am gymorth a sicrwydd gan wasanaethau, ac ymateb i ymchwiliadau.

### Risgiau Strategol Coch ac Ambr

30. Mae tri risg strategol yn weddill i'w hadolygu cyn diwedd y flwyddyn:

- YM5 Ysgolion (coch/coch) - cynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2023
- YM11 Cynnydd mewn tlodi'n cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor (coch/coch) - adolygiad yn mynd rhagddo
- YM10 Diogelu Corfforaethol (coch/ambr) - cynlluniwyd ar gyfer mis Chwefror 2023

### Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

31. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n helpu i ganfod ac atal twyll. Yng Nghymru, fe'i cynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol fel y nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

32. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi'i dylunio i helpu cyrff cyhoeddus gryfhau eu trefniadau atal twyll trwy ymarfer paru data cenedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithio gyda Swyddfa Gabinet y DU, Swyddfa Archwilio'r Alban a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wrth gynnal y Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU.

33. Cynhelir y prif ymarfer paru data pob dwy flynedd ac rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau i dynnu data o systemau i'w uwch lwytho ar gyfer yr ymarfer eleni. Llwyddom i gwrdd â holl ddyddiadau cau y Fenter Twyll Genedlaethol. Cyn uwch lwytho, roedd rhaid sicrhau ansawdd y setiau data i sicrhau eu bod yn bodloni'r manylebau data. Roedd rhaid gwirio'r hysbysiadau preifatrwydd yn ogystal i sicrhau cydymffurfiaeth.

34. Bydd canlyniadau'r ymarfer paru data ar gael ddiwedd Ionawr 2023, pan fyddwn yn dechrau adolygu'r canlyniadau paru ar sail risg, a, lle bo modd, yn eu dosbarthu i'w hadolygu gan y gwasanaethau. Rhaid cofnodi canlyniadau ein harolwg ar borth diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.

### Gwaith Arall

35. Byddwn yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a monitro'r gwaith o fynd i'r afael â'r materion/risgiau archwilio sydd yn weddill.

36. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal hunanasesiad gydag aelodau'r Pwyllgor i bennu anghenion hyfforddi a datblygu yr aelodau etholedig ac aelodau lleyg newydd.


37. Ar hyn o bryd rydym yn destun Asesiad Ansawdd Allanol gan Gyngor Sir y Fflint o ran ein cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.


## Blaenoriaethau Tymor Hwy


- Cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd newydd ar gyfer 2022-2025, gan gynnwys parhau i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad 'Gwella Ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella gwaith mapio sicrwydd ar draws y Cyngor a chyfrannu at ddatblygiad y Grŵp Adolygu Llywodraethiant a Pherfformiad.
- Unwaith y bydd wedi cael amser i aeddfedu, byddwn yn gweithio gydag aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor gan ddefnyddio canllawiau newydd CIPFA fel meincnod.


# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL AR 31 IONAWR 2023 (DANGODFWRDD 4ACTION)








### Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
| --- | --- |

0 of 0

### Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
| --- | --- |
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 2 |
| Recovering Council Debt 202110 | 6 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 5 |
| ICT Software Licence Management 212208 | 2 |
| Teachers' Pensions Part 1 212212 | 4 |

### Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
| --- | --- |
| 6048 | Supplier Maintenance & Duplicate Payments 2 - The high volume of invoices raised without a supporting purchase order creates an unnecessary... |
| 6052 | Supplier Maintenance & Duplicate Payments 1 - Staff in services are not raising purchase orders properly, i.e. inserting a separate line for each... |
| 6071 | Corporate Parenting Panel 2 - Despite being identified in 2017 as the necessary framework to enable and ensure the Council fulfils its corporate... |
| 6192 | Phishing 1: Results of the recent phishing test commissioned by ICT showed that too many users would fall for a phishing email, despite having... |
| 6251 | Housing Allocations 4 - The housing application process is inefficient and |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad: /Title of Report: )***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>14 & 16 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank